www.ecorwyddfa.co.uk

£1

RHIF 529
Rhagfyr
2024

# ECO'r Wyddfa

# Nadolig Llawen i bawb!

Croeso i rifyn Nadolig *Eco'r Wyddfa*! Mae'r fro yn llawn prysurdeb a hwyl yr ŵyl; gobeithio y gwnewch chi fwynhau rhifyn sy'n llawn edrych ymlaen at y dathlu.

Sôn am brysurdeb, mae hi wedi bod yn gyfnod llawn bwrlwm cymunedol ym Mhenisarwaun yn ddiweddar, wrth i garedigrwydd pentrefwyr a chwmniau lleol ac egni Proseict Pum Mil ddod ynghyd. Darllenwch fwy ar dudalen 20.



Os ydych chi'n chwilio am anrhegion Nadolig, mae corachod bach Siôn Corn wedi cynnig syniadau o fro'r *Eco* ar dudalen 23, gan gynnwys cynnyrch hyfryd Antur Waunfawr a Menter Fachwen a thanysgrifiad i'r *Eco*! Neu ddarllenwch am draddodiadau Cymreig yr ŵyl ar dudalen 30.







Nid pawb yn y byd fydd yn dathlu eleni; fel bob mis, mae'n werth cymryd Un Funud Fach i ddarllen y geiriau ar dudalen 17. "Ystrydeb bellach ydi deud ei bod yn amhosibl i'r rhelyw o bobl ddychmygu'r arswyd o fyw yng nghysgod y dronau difäol a'r saethu diddiwedd." Nid goleuadau hardd addurniadau a choed bytholwyrdd fydd yn goleuo Gaza y Nadolig yma.

## ANRHEG BERFFAITH:

### Tanysgrifiad Blwyddyn i *Eco'r Wyddfa*

Chwilio am anrheg Nadolig difyr sy'n para'r flwyddyn gron?

Beth am danysgrifiad blwyddyn i'r *Eco* (Ionawr – Rhagfyr) am £10!

Daw'r rhifynnau at eich drws os ydych yn byw yn nalgylch yr *Eco*.

Neu archebwch gopïau digidol am £10 neu gopïau drwy'r post am £35

Cysylltwch â Goronwy Hughes, goronwy@lineone.net

**Plîs Cefnogwch yr *Eco* am £10 y Flwyddyn!**



## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## Yn y rhifyn hwn:


- **Nofel newydd awdur lleol - Nelan a Bo - tud. 20**
- **Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri - tud. 11**
- **Amgueddfa Lechi Llanberis yn cau am 2 flynedd - tud. 14**
- **Cynllun Tŷ Gwynedd - tai cyngor cyntaf Cyngor Gwynedd ers blynyddoedd - tud. 17**


20




17



w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

**£10** gan Gwyn Oliver Jones
**£10** Mari Ellis, Deiniolen
**£20** Er cof am Yvonne gan Malcolm Pitts a'r teulu
**£25** Er cof am Mr Glyn Richards, 5 Tai Caradog, Deiniolen
**£20** Er cof am Wavell Roberts gan Elizabeth a'r teulu

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Ionawr | 6 Rhagfyr (**sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer**) | 20 Rhagfyr (**sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer**) |
| Chwefror | 10 Ionawr | 24 Ionawr |
| Mawrth | 14 Chwefror | 28 Chwefror |

# Digwyddiadur

### Pantomeim: Jac a'r Jareniym

Eleni, bydd cast a chriw Theatr Fach Llangefni yn perfformio clasur Caryl Parry Jones a Hywel Gwynfryn: Jac a'r Jareniym. Pantomeim Cymraeg sy'n addas i'r teulu oll. Dewch yn llu!

**Dyddiadau**
Rhagfyr 1af - 7fed 2024
Perfformiadau nos yn dechrau am 7.00pm a'r perfformiadau p'nawn yn dechrau am 2.00pm.
Tocynnau: Oedolion £10 / Aelodau'r Theatr £9 / Plant £8.




Tocynnau ar gael o'n gwefan - www.theatrfachllangefni.cymru/digwyddiadau neu os nad oes gennych fynediad at y wê, bydd y swyddfa docynnau sydd wedi'i lleoli yng ngyntedd y theatr ar agor bob dydd Sul o 3yp - 5yp rhwng rŵan a'r pantomeim, lle mae modd i chi ddod draw i brynu'ch tocynnau. Rydym yn derbyn arian parod neu daliad â cherdyn.

**Gigs Penbont.** Côr Dyffryn Peris. Y Penbont, Llanrug. Nos Sadwrn 14eg Rhagfyr, 7.30pm. Pris mynediad £10 a'r elw'n mynd tuag at MND. Oedolion 18+ yn unig. Rhaid archebu tocynnau o flaen llaw drwy gysylltu â Donna - 07789 738649.






# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Gêmau**. Mae Glasgow wedi cytuno i gynnal Gêmau'r Gymanwlad yn 2026, a hynny wedi i dalaith Victoria yn Awstralia ddatgan ei bod yn llawer rhy ddrud iddyn nhw wneud hynny. Fe'i cynhaliwyd yn Glasgow yn 2014, ond bydd llawer llai o gystadleuthau yn 2026. Mae rhai bellach yn cwestiynnu a oes bwrpas cynnal y gêmau o gwbl.
- **Teigrod**. Cyhoeddodd llefarydd ar ran Sŵ Wroclaw yng Ngwlad Pwyl fod pedwar o deigrod Sumatra wedi eu geni yno. Y gobaith yw y bydd modd eu gollwng i'r gwyllt neu i genhedlu mwy. Dim ond 400 o deigrod Sumatra sydd ar ôl yn y gwyllt.
- **Cyfansoddiad.** Mae copi gwreiddiol prin eithriadol o Gyfansoddiad Unol Daleithiau'r America wedi ei werthu am bron i £7 miliwn. Dim ond 100 copi a gyhoeddwyd yn wreiddiol, a hynny 237 o flynyddoedd yn ôl. Credir mai dim ond wyth copi sydd wedi goroesi.
- **Trydydd cenhedlaeth**. Chwaraeodd Daniel Maldini i dim pêl-droed yr Eidal yng Nghynghrair y Cenhedloedd, gan ddilyn ôl troed ei dad, Paolo, a'i daid Cesare.
- **Pen-blwydd.** Cyfres deledu 'Pobl y Cwm' yn dathlu ei phen-blwydd yn hanner cant oed.
- **Croes bren.** Mae'r groes, a fu'n sefyll yn Ne Georgia, Antarcica i goffáu Syr Ernest Shackleton wedi ei chario dros 8,000 o filltiroedd i'w harddangos mewn amgueddfa yn Dundee.
- **Parcio.** Mae trigolion stryd yng nghanol tref Aberystwyth wedi eu rhybuddio rhag gosod côn ar y ffordd o flaen eu cartref er mwyn gwarchod lle parcio. Mae'n ymddangos fod siopwyr yn 'dwyn' y llefydd parcio er mwyn osgoi talu yn y meysydd parcio swyddogol.
- **Dydd y Meirw.** Yn union fel mae Calan Gaeaf a Dydd yr Holl Saint yn cael eu dathlu yma, yn America Ladin, yr ail o Dachwedd yw'r dydd gŵyl, a bydd y trigolion yn coffáu eu hanwyliaid sydd wedi marw. Fel rhan o'r ŵyl byddant yn bwyta bara melys o'r enw tantawawa.
- **Mwng**. Blew o fwng ceffylau rasio enwog yn cael eu gwerthu ar ocsiwn yn Amgueddfa Rasio Ceffylau yn Newmarket. Mae'r blew yn dyddio o 1948 i'r presennol, ac yn cynnwys cudynnau o fwng Red Rum, Shergar, Arkle a Nijinsky.
- **Cyflog.** Arolwg diweddar yn dangos fod y mwyafrif o bobl yn credu y dylai nyrsus a gofalwyr gael mwy o gyflog.

**Cyngerdd Achub y Plant yng Nghadeirlan Bangor**

Ar y 12fed o Hydref yng Nghadeirlan Bangor, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog er budd elusen Achub y Plant.

Trefnwyd y cyngerdd gan Annette Bryn Parri, a daeth degau o blant ysgolion Deiniolen, Penisarwaun, Dolbadarn, Llanrug, Waunfawr a Llandygai at ei gilydd i berfformio'r gân 'Mae 'Na Obaith' gyda'r tenor byd enwog o Lanbedrgoch, Gwyn Hughes Jones, sydd yn lysgennad i'r elusen yng Nghymru. Cyfansoddwyd 'Mae 'Na Obaith' gan Annette a'i diweddar ŵr, Gwyn Parri yn 2019, fel rhan o ddathliadau can-mlwyddiant Achub y Plant.

Wil Morgan oedd yn cyflwyno'r noson, a chafwyd cyngerdd arbennig iawn yng nghwmni Annette, Gwyn Hughes Jones, y cerddor a'r pianydd o'r Eidal, Stefano Nerozzi, Côr Law yn Llaw dan arweiniad Anwen Edwards, Dylan a Neil, Piantel, Bedwyr Parri ac Emyr Gibson, Hawys Parri, y bariton Robat Wyn a chôr plant ysgolion bro'r Eco.

Roedd Gareth Owen, Cyfarwyddwr Dyngarol Achub y Plant yn bresennol ar y noson, a chyflwynwyd rhodd arbennig iddo ar ran yr ysgolion gan Haf Thomas ar ddiwedd y cyngerdd. Braf hefyd oedd cael cwmni Eurgain Haf, sydd yn Uwch Reolwr y Cyfryngau Achub y Plant Cymru. Rydym yn llongyfarch Eurgain yn wresog iawn ar ennill Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd ym mis Awst.




Codwyd £3,500 i elusen Achub y Plant ar y noson, ac mae'r diolch yn fawr i'r artistiaid i gyd, plant yr ysgolion a'r staff, aelodau cangen Achub y Plant Ynys Môn, staff y Gadeirlan, y gynulleidfa ddaeth ynghyd, yn ogystal â chwmniau busnes lleol am eu holl gefnogaeth.





NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth Dylan a'r staff
SIOP CHIPS TEGFAN
Y SGWÂR LLANRUG
(01286) 671211

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddiwrth Nia yn siop harddwch
HAIRLINES
Stryd Fawr, Llanberis
870328

# WAUNFAWR

Gyda'r Nadolig yn agosáu, dewch i gefnogi gweithgareddau sydd wedi eu trefnu yn y pentref, a hefyd y busensau bach lleol i ni yma yn y pentref – mae nifer fawr ohonynt!

**Cylch Meithrin Waunfawr – Ffair Nadolig!**
Ar 1af o Ragfyr mae'r Cylch wedi trefnu ffair Nadolig yn y Ganolfan, rhwng 5.00 – 7.00pm lle bydd paned a chacen, canu carolau, stondinau a mwy! Dewch yn llu! (gweler manylion ar y poster).




Mae'r Cylch yn chwilio am unigolyn cyfrifol newydd i gymryd rhan ochr yn ochr â gwirfoddolwyr eraill i gynnal y Cylch. Mae nifer o ddarllenwyr yr Eco wedi bod ar bwyllgor y Cylch ar hyd y blynyddoedd, ac er ei fod ar adegau yn waith caled, mae hefyd yn foddhaol iawn, ac mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau gyda rhieni eraill.

Cysylltwch â phwyllgor y Cylch os medrwch helpu.

**Teulu Arbennig iawn**
Mae gwasanaeth Maethu Cymru yn rhoi sylw arbennig i blant gofalwyr maeth yn ystod mis Hydref pob blwyddyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad hanfodol mae plant gofalwyr maeth yn ei chwarae. Mae Karen a Marc Parry, Tai Eilian wedi bod yn maethu plant ers 2016, ac mae eu plant, Emma, Ben a Lewis hefyd yn chwarae rhan pwysig iawn wrth groesawu plant i'w cartref. Mae Maethu Cymru yn ddiweddar wedi rhoi cydnabyddiaeth iddynt am eu cyfraniad eithriadol i faethu. Meddai Maethu Cymru:

"Mae'r gofal a'r cariad mae Emma, Ben a Lewis wedi dangos tuag at y plant sydd wedi byw gyda nhw wedi bod yn anhygoel… pe gallem 'glônio' y teulu hwn, byddai'r byd yn lle llawer gwell i fyw a byddem yn yn gweld llawer mwy o blant yn cael y cychwyn gorau posib mewn bywyd."

Mae'n braf iawn gwybod bod pobl mor arbennig yn byw yn ein pentref ni.

**Plaid Cymru**
Llongyfarchiadau gwresog i Gareth Williams, Plas Bodhyfryd ar dderbyn gwobr cyfraniad oes i Blaid Cymru yng Nghynhadledd y Blaid fis dwytha. Mae Gareth wedi gweithio'n ddi-flino dros y Blaid ers degawdau ac yn parhau i wneud hynny. Diolch o galon Gareth.

**Croeso adra!**
I Dewi Jones, Dôl y Coed sydd wedi dychwelyd adref wedi cyfnod hir yn yr ysbyty. Dwi'n siŵr ei bod yn braf cael dod adref i'r Weun, Dewi.

Mae Olwen Owen, Tref Eilian, hefyd wedi cael dod adref – gobeithio eich bod yn teimlo'n well. Cofion cynnes at bawb arall sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Efa, 5 Bro Waun (gynt) ar enedigaeth mab bach sef Ollie Wyn. Dwi'n siŵr bod Elsi y chwaer fawr wedi gwirioni, ac hefyd nain, Emma Davies, a hen daid a nain, Garry a Christine Davies. Pob hwyl i chi ar y magu.



**Dawnsio yn y Ballroom – Tŵr Blackpool**
Cafodd Dei Greasley y cyfle i ddawnsio yn y lleoliad enwog yma yn ddiweddar fel rhan o griw clwb KP Stars Karen Pritchard. Roedd Dei yn cystadlu yn erbyn cannoedd o blant eraill gan lwyddo i fynd drwodd i'r drydydd rownd, ac wedi mwynhau pob eiliad. Bydd yn cystadlu eto yn Odlham ym mis Chwefror. Pob lwc i ti Dei – ella byddwn yn dy weld ar 'Strictly' yn y dyfodol!

**Pen-blwydd Arbennig**
Mae Wendy Jones, Tref Eilian wedi bod yn dathlu pen-blwydd arbennig ac mae'r teulu yn anfon eu dymuniadau gorau iddi. Hwyl fawr i chdi 'ar y bysus' Wendy!

**Profedigaeth**
Anfonwn eich cydymdeimlad llwyraf i deulu y diweddar Emrys Lloyd Hughes, Fferm Treflan Isaf, Waunfawr. Roedd wedi ei eni a'i fagu yn Waunfawr; yn Gwastadfaes ac yna Treflan Isaf. Treuliodd ei fywyd yn ffermio ac roedd yn fridiwr ceffylau llwyddianus iawn.

Mae'n gadael ei ferch Anna, mab yng nghyfraith Gareth a'r wyrion Sara, Dafydd a Huw, sydd yn byw yn y cartref teuluol yng Ngwastadfaes.

**Diolchiadau**
Dymuna Iona Williams, Llwydiarth ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd ddangoswyd yn ystod ei anhwyldod yn ddiweddar.

Dymuna Anna, Gareth, Sara, Dafydd a Huw ddiolch am yr holl negeseuon, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd er cof am dad a thaid annwyl, sef Emrys Lloyd Hughes, Treflan Isaf.

Hoffai Nia Evans, 8 Tref Eilian ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hi yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Ian Hugh Jones yn ddiweddar. Hefyd, hoffai Nia ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau a negeseuon brysia wella yn dilyn triniaeth clun newydd.

**Miri Siôn Corn yn Antur Waunfawr!**
Mae Antur Waunfawr yn gwahodd y gymuned i ddigwyddiad Nadolig llawn hwyl i'r teulu i gyd ar Ddydd Mercher, 11eg o Ragfyr, rhwng 5.00 a 7.00pm. Dewch i fwynhau profiad nadoligaidd arbennig gyda Siôn Corn yn ei ogof hudolus, a stondinau cynnyrch unigryw gan Antur Waunfawr, anrhegion lleol perffaith ar gyfer y Nadolig.

Bydd awyrgylch cynnes gyda chanu carolau, bwyd a diod blasus, a raffl gyda gwobrau gwych. Dewch draw i greu atgofion, i ymuno yn yr hwyl Nadoligaidd!



**Noson Calan Gaeaf**
Diolch i Tecwyn Vaughan Evans, cafodd plant Waunfawr brofiad reit arbennig ar noson Calan Gaeaf eto eleni. Nid da-da na ffrwythau mae Tecwyn yn ei roi i'r plant ond hudlath bren unigryw mae'n eu gwneud â llaw allan o goes brwsh llawr. Cychwynnodd Tecwyn ar eu gwneud ar gyfer noson Calan Gaeaf 2023 – ac mi wnaeth 65 o blant y pentref eu derbyn. Eleni, roedd Tecwyn wedi paratoi 102 ond doedd hyn ddim cweit yn ddigon i'r holl blant wnaeth droi fyny wrrth ddrws y tŷ a bu'n rhai'n gwneud 3 arall munud dwytha!

Yn ogystal a'u gwneud i blant Waunfawr, Tecwyn sy'n darparu hudlathau i grŵp Gwrachod Eryri ac yn ogystal â hynny mae dwy wedi cael eu hallforio i Dallas!

Gallwch ddod o hyd i fwy o hanes Tecwyn ar ei dudalen facebook 'The Welsh Wandmaker'

Gad i ni wybod sawl hudlath fyddi di wedi ei wneud at Calan Gaeaf nesa Tecwyn!





**Hwyl Fawr a phob lwc!**
Mae ffrinidau Liam Langton, Tan y Waen yn dymuno yn dda iddo wedi iddo symud yn ddiweddar i fyw i Dde Affrica. Roedd Liam yn golgeidwad ardderchog i Glwb Pêl-Droed Waunfawr, a bydd colled ar ei ôl. Mae Liam wedi bod mewn cysylltiad gyda'i ffrindiau ysgol yma yn Waunfawr, ac yn dweud ei fod wedi ymuno gyda thîm pêl-droed o'r enw Supersport United FC Academy yn Pretoria, lle mae ei sgiliau fel golgeidwad yn sefyll allan – diolch i'r profiad o chwarae am flynyddoedd gyda Waunfawr yng ngynghrair Gwyrfai.

**Paneli Solar Canolfan Waunfawr**
Mae'r rhai praff yn eich mysg wedi sylwi bod paneli solar wedi cael eu gosod bellach ar do'r Ganolfan. Daeth arian drwy Run4Wales (£7,000 am y paneli) a'r Cyngor Cymuned (£5,000 am y batri). Mae cynlluniau i gael rhagor o baneli yn y dyfodol er mwyn creu digon o drydan ar gyfer tai cyfagos a hefyd gwella'r system wresogi hefyd, efallai gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn y maes parcio.

Yn ogystal â bod yn fuddiol i'r Ganolfan ag i bawb sy'n ei defnyddio, gobeithio bydd y cynlluniau yma yn ysbrydoli eraill i fuddsoddi yn eu cartrefi hwythau hefyd.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn ymwneud â hyn, mae'n braf gweld y Ganolfan yn buddsoddi yn y dyfodol ac yn dangos y ffordd efallai i ganolfannau eraill allai weithredu yn yr un modd. Diolch i Dafydd Dafis am anfon yr adroddiad ata'i.

**Gwyrfai Gwyrdd, a chyngor ar gadw cartrefi'n gynnes**
Cynhelir sesiynau Taro Heibio efo Tîm Gwyrfai Gwyrdd a Gwenno Llywelyn (Swyddog Ynni – Gwynedd Sero Net) yn ystod mis Tachwedd. Pwrpas y cyfarfodydd yw i ddiweddaru pentrefwyr Waunfawr a Chaeathro ar ddatblygiad y fenter ynni cymunedol yn cynnwys sefydlu Clwb Ynni Gwyrfai a Prosiectau Solar Cymunedol ymhlith eraill. Mae Gwenno hefyd yn cynghori pobl ar sut i gadw eu cartrefi yn gynnes, arbed ynni a chymryd maintais o raglenni cymorth a grantiau. Am ragor o fanylion cysylltwch â dafydd.davies@gwyrfaigwyrdd.cymru neu ar 07841 764044.

Mae tîm Gwyrfai Gwyrdd hefyd wedi paratoi fideo ardderchog i esbonio mwy am y prosiect – gallwch ei weld drwy ddefnyddio'r côd QR yma.

Er mwyn gallu darllen y côd QR – rhowch gamera eich ffôn symudol drosto a dylai fynd a chi i ddolen sy'n eich galluogi i agor y fideo.


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd

8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP




# Ysgol Waunfawr

**Ffair Nadolig Ysgol Waunfawr 4ydd Rhagfyr 2024**
Cysylltwch os oes diddordeb archebu stondin.

**Eisteddfod Ysgol Brynrefail**
Anrhydedd oedd gallu cynnal Dawns y Blodau yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail eleni, a hynny yng nghwmni rhai o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn yr orsedd. Yr oedd yn brofiad anhygoel i'r genethod a'u rhieni. Diolch yn fawr i Ysgol Brynrefail am y gwahoddiad.



**Beicio Blwyddyn 6**
Braf oedd gweld dysgwyr Blwyddyn 3 a 6 yn derbyn gwersi beicio yn ddiogel yn ddiweddar. Diolch i Carwyn Antur Waunfawr am hyfforddi y rhai ieuengaf.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Diolch i Anti Gwenda ac Anti Iola am ein cynorthwyo wrth gyfeilio yn ein gwasanaeth diolchgarwch yn y Capel yn ddiweddar. Casglwyd pump llond bag o nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Arfon yn ystod yr wythnos – diolch i bawb am eu haelioni.

**Marathon Eryri**
Diolch i'r Marathon am y cynnig o gynnal stondin eto eleni a hynny er mwyn derbyn rhodd ariannol hael iawn. Yr oedd yn wych gweld cymaint o gefnogaeth i'r ras a nifer fawr o deuluoedd yn cynorthwyo.



**Rhoddion i'r ysgol**
Yr ydym yn hynod o ddiolchgar pob amser o dderbyn rhoddion ariannol gan y gymuned er mwyn cynorthwyo plant yr ysgol.

Diolch i dafarn Snowdonia Parc am rodd o £200 yn dilyn disgo Calan Gaeaf. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu paent ac adnoddau crefft ar gyfer y Nadolig.

**Elusen Macmillan**
Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol am drefnu bore coffi yn ddiweddar. Casglwyd £60 ar gyfer yr elusen. Diolch o galon i'r gymuned am gefnogi gweithgareddau'r ysgol.

**Cyngerdd Achub Y Plant: Cadeirlan Bangor**
Braint oedd cael gwahoddiad gan Annette Bryn Parri a Ffion Orwig i fod y rhan o gyngerdd godidog yn y Gadeirlan yn ddiweddar. Yr oedd y plant wedi gwirioni clywed y corau ac unawdwyr ar y noson – am wledd! Diolch i bawb wnaeth gefnogi a chynnig rhodd ariannol tuag at yr achlysur.

**Salwch**
Yr ydym yn dymuno gwellhad buan i Anti Syl ac Anti Anne ac yn edrych ymlaen eu croesawu i'r ysgol yn fuan. Traed i fyny y ddwy ohonoch!






**Twrnament Pêl-droed yr Urdd**
Bu i'r tîm merched a thîm cymysg Blwyddyn 3 a 4 gystadlu yn y twrnament yn Nhreborth yn ddiweddar, a hynny mewn glaw a mwd! Bu i bawb fwynhau yn arw a'r dathliadau ar gyfer y goliau yn wych. Diolch i Mr Jones a Mr Aled am eu hyfforddi.







**Gwersi Beicio**
Da iawn i blant Blwyddyn 6 am gwblhau y cymhwyster beicio eleni. Cofiwch wisgo eich helmed bob amser blant!





**Her Ddarllen Y Llyfrgell**
Pleser oedd cael gwobrwyo 19 o blant yr ysgol am gwblhau yr her ddarllen yn ystod yr haf. Daliwch ati blant!




**Cyfeillion yr Ysgol**
Diolch yn fawr i'r Cyfeillion am eu gwaith di-flino er mwyn codi arian i'r ysgol. Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn y Disgo Calan Gaeaf gydag elw o £400 i'r ysgol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfoethogi offer technoleg yr ysgol, a chynorthwyo gyda chostau bws panto Nadolig.










Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com







## LLANRUG

**Llongyfarchiadau**

Danfonwn longyfarchion gwresog i Fiona Morgan ar ei llwyddiant anhygoel yn ddiweddar. Rydym yn gwybod ei bod yn redwraig o fri ac yn aelod o Glwb Rhedeg Eryri Harriers, ac fel rhan o ddathliadau ei phen-blwydd yn hanner cant fis Medi, mae hi newydd gwblhau her arbennig iawn. Mae hi wedi llwyddo i gwblhau Marathon Chicago a Marathon Efrog Newydd, ble cafodd ei dewis i gynrychioli Prydain yng Ngorymdaith Baneri'r Cenhedloedd yn y seremoni agoriadol yn Efrog Newydd. Roedd yn hynod o falch i chwifio'r Ddraig Goch a hyrwyddo Cymru yn ystod yr orymdaith. Yn ogystal â hyn, mae hi hefyd wedi cwblhau rhedeg 50 milltir ar draws 50 talaith yn yr UDA. Camp aruthrol! Llongyfarchiadau mawr Fiona.

Rydym hefyd yn llongyfarch Tomi Green ar gael ei ddewis i gynrychioli Gogledd Cymru mewn twrnament pêl-droed yn yr Iseldiroedd y flwyddyn nesaf. Pob lwc a llongyfarchiadau mawr i ti Tomi. Mi fydd yn brofiad arbennig.



**Pen-blwydd arbennig**

Pen-blwydd Hapus yn 80 oed i Elwyn Roberts ar ddathlu ar y 15fed o Dachwedd. Gobeithio i chi fwynhau amser braf a difyr yn dathlu gydag Anwen a'r teulu i gyd.

Ar y 1af o Dachwedd roedd Megan Roberts, Gregynog yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 80. Cofion cynnes a dymuniadau gorau iddi.

**Hafan Elan**

Yn ystod mis Hydref cafodd trigolion a ffrindiau Hafan Elan Ginio Cynhaeaf – sef lobsgows blasus wedi ei baratoi gan Beverley y warden a'i mam Cath.

Yna, i ddathlu pen-blwydd Arnold, 4 Hafan Elan, cawsom ginio o daten trwy'i chroen neu gi poeth a nionod, ac i ddilyn cawsom gacen pen-blwydd. Diolch eto i Beverley am drefnu'r cyfan.

**Oedfaon Rhagfyr Capel y Rhos**

1af Rhagfyr – Sul yr Adfent
8fed Rhagfyr – Y Gweinidog – Y Barch Nerys Anne Griffiths
15ed Rhagfyr – Gwasanaeth Carolau
22ain Rhagfyr – Parch Gerallt Ll Evans
29ain Rhagfyr – Y Gweinidog – Y Barch Nerys Anne Griffiths

**Gair o ddiolch a Nadolig Dedwydd i chi ddarllenwyr**

Diolch o galon am eich cefnogaeth, y straeon a'r newyddion difyr trwy gydol y flwyddyn. Nadolig Dedwydd iawn i chi gyd, gan obeithio y cewch gyfle i ymlacio a mwynhau dros yr ŵyl gyda theulu a ffrindiau.

Ond yng nghanol yr holl rialtwch a hwyl yr ŵyl, mae'r Nadolig yn medru bod yn gyfnod anodd iawn i nifer fawr ohonom. Byddwn yn cofio am y rhai sydd ymhell o adref, ac yn meddwl am bawb sydd ddim yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd ac yn gorfod treulio'r Nadolig yn yr ysbyty.






## Ysgol Llanrug



**Diolchgarwch**

Rydym yn ddiolchgar i'r holl rieni a roddodd yn hael tuag at Fanc Bwyd Llanrug a Chwm y Glo. Dyma lun o'r pwyllgor Masnach Deg a fu'n helpu i gasglu y nwyddau.






**Disgo**

Roedd neuadd yr ysgol yn llawn ar nos Fercher 23ain Hydref gyda'r plant wedi mynd i drafferth mawr i wisgo i fyny ar gyfer y disgo. Bu pawb yn mwynhau y dawnsio ac wrth gwrs y danteithion!





**Cyngerdd Achub y Plant**
Bu y plant yma yng Nghadeirlan Bangor i gymryd rhan mewn cyngerdd mawreddog i godi arian tuag at elusen Achub y Plant. Diolch yn fawr i chi ac ar ran yr ysgol diolch am brofiad arbennig.




**Bardd Plant Cymru**
Cafodd blynyddoedd 5 a 6 brofiad gwerthfawr yn cyfansoddi gyda Bardd Plant Cymru 2021 - 2023 Casi Wyn.




**Tripiau**
Bu blynyddoedd 1, 2, 3 a 4 ar dripiau yn ddiweddar. Aeth blwyddyn 1 a 2 draw i Lanberis i wneud gweithgareddau Ysgol Goedwig yn ogystal a chael dysgu a helpu Anti Marged yn yr Amgueddfa i wneud sebon a golchi dillad. Antur yng Nglynllifon gafodd blynyddoedd 3 a 4 wrth iddynt ddarganfod mwy am fyd natur yn ystod tymor yr hydref.





**Yr Urdd**
Bu'r bechgyn a'r genethod draw ym Mangor yn nhwrnament pêl-droed Yr Urdd yn ddiweddar.




# Tyddyn Teg

## Bwyd - Tir - Pobl

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# DEINIOLEN

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Glyn Richards. Yn dawel yn ei gartref, 5 Tai Caradog, Deiniolen, gyda'i deulu o'i gwmpas, bu farw Glyn yn 96 oed ar 15fed Hydref 2024.

Annwyl ŵr Iona a thad arbennig Keith a Brenda. Tad-yng-nghyfraith Stuart a Shirley. Taid a hen daid direidus a ffrind annwyl i lawer.

**Diolch**
Dymuna teulu'r diweddar Glyn Richards, 5 Tai Caradog Deiniolen, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, fe gasglwyd £1,360.




**Beicio**
Os ydach chi'n hoffi beicio neu'n chwilio am gyfle i wella'ch ffitrwydd dyma gyfle da i chi. Cofrestrwch gynted ag y gallwch chi.

Diolch i'r Pwyllgor Pentra am drefnu'r gweithgareddau i drigolion ac ieuenctid y pentref.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau gwresog i Daniel Ellis o Ddeiniolen ar dderbyn gwobr Cyfreithiwr y Flwyddyn yn ogystal â Phencampwr y Flwyddyn am ei waith yng Ngwobrau Cyfraith Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd fis Hydref. Mae Daniel yn gweithio fel cyfreithiwr i gwmni Blake Morgan yng Nghaerdydd. Arbennig iawn Daniel, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Merched y Wawr**
Cafwyd cwmni Delyth Williams yn ein cyfarfod mis Hydref yn sôn am ei gwaith fel rheolwr prosiect i ail agor a datblygu yr ardal o gwmpas Tŵr Marquis ar Ynys Môn. Cafwyd hanes diddorol teulu'r Marquis a hanes y graig sgistlas sydd yn unigryw i Fôn a datblygiad y bwthyn a'r caffi. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 2ail o Ragfyr lle bydd cwrs cymorth cyntaf yn cael ei gynnal.

Mi fyddwn yn dathlu'r Nadolig gyda noson allan yng Nghaernarfon ar y 21ain o Ragfyr. Mae croeso o hyd i unrhyw un efo diddordeb i ymuno a ni.

**Cynghorydd Elfed Williams**
Diolch i griw y Cyngor am dorri gwair y fynwent yn ddiweddar. Diolch hefyd i griw tacluso y Cyngor am glirio o gwmpas y gofgolofn.

Mae dau ymgeisydd wedi trio am y swydd i redeg Clwb Ieuenctid yn y pentre. Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 11eg Tachwedd. Diolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am ariannu y swydd.




**Clwb Arweinwyr Ifanc Deiniolen**
Mae'r sesiwn gyntaf eisoes wedi bod a phawb wedi cael hwyl! Os ydach chi'n byw yn Neiniolen neu'n y cyffiniau ac ym Mlwyddyn 7 - 11 dewch i fwynhau bod yn greadigol yng Nghaffi EBs ar nos Fercher rhwng 5.00 - 7.00pm.

**Bwyta allan**
Ar yr un noson ymwelodd **SPUDS 2 GO** efo'r pentref rhwng 4.30pm a 8pm yn gweini tatws drwy'u crwyn efo gwahanol lenwadau.




**Yn olaf hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb a diolch yn fawr am y gefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu.**

**Straeon arswyd**
Ar nos Iau 7fed Tachwedd cafwyd noson hynod o ddifyr (yn rhad ac am ddim) yn Nhŷ Elidir gyda Gareth Roberts, Menter Fachwen, yn ein harwain trwy gyfres o straeon ysbryd a digwyddiadau arallfydol yn Neiniolen a'r cyffiniau.

Roedd yr hanesion a'r straeon yn hynod o ddifyr, a do mi wnaeth pawb gysgu'r noson honno…





# Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri

Cynhaliwyd Eisteddfod clybiau ffermwyr ifanc Eryri yng Nghricieth ar yr 19fed o Hydref yn Neuadd Cricieth. Bu 11 clwb yn cystadlu'n frwd ar draws 24 o eitemau amrywiol. Roedd ansawdd y cystadlu o'r cychwyn hyd at ddiwedd y diwrnod yn ardderchog, a braf oedd gweld aelodau o bob oedran yn cystadlu'n unigol, fel parau ac mewn grwpiau.

Gefn llwyfan roedd bwrlwm a chyffro wrth i bawb baratoi i gystadlu, yn wir mae Eisteddfod y ffermwyr ifanc yn un unigryw, gyda gwisgoedd na chaiff eu defnyddio mewn unrhyw eisteddfod arall. Ni welsoch chi erioed y fath anhrefn ag ystafell ymarfer y ffermwyr ifanc!

Fe aeth canlyniadau i bob cwr o'r sir eleni, gyda chymysgedd dda o glybiau yn dod i'r brig. Llwyddiant ddaeth i Lanrwst yn y dawnsio disgo, a Cadi o glwb




Llangybi y clwb buddugol

Porthdinllaen gipiodd y wobr gyntaf yn yr unawd alaw werin dan 28. Rowen oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth Codi Hwyl, a pharti llefaru Y Rhiw lwyddodd i ennill y gystadleuaeth parti llefaru. Deuawd doniol Godre'r Eifl serenodd yn y deuawdau/driawdau doniol, a pharti deusain Dyffryn Madog lenwodd y neuadd gyda sain anhygoel yn y gystadleuaeth parti deusain. Gwydion o glwb Ysbyty Ifan daeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth cerdd dant, a llwyddiant ddaeth i Catrin o glwb Llangybi yn yr unawd dan 28. Dyffryn Nantlle oedd yn llwyddiannus yn y Meim, a Cian o glwb Dyffryn Ogwen ddaeth yn ail yn yr unawd dan 17, gyda Non o glwb Caernarfon yn fuddugol yn yr unawd allan o sioe gerdd/ffilm. I weld yr holl ganlyniadau ewch i dudalen Facebook y sir - Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri.

Llongyfarchiadau enfawr i Nanw Swyn ac Angharad Rhys am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair a'r Goron. Bu i Nanw Swyn o glwb Llanrwst ennill y gadair gyda Cherdd ac Angharad Rhys o glwb Godre'r Eifl ennill y goron gyda darn o ryddiaith. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddwy.

Ar ddiwedd holl gystadlu y diwrnod, dychwelyd i Langybi mae tarian y buddugwyr wedi seibiant byr, llongyfarchiadau mawr i glwb Llangybi! Yn ail oedd clwb Rowen, ac yn drydydd clwb Godre'r Eifl.

Diolch yn fawr i bawb fu'n help i drefnu'r Eisteddfod ac i bob swyddog a stiward oedd yn rhan o rediad esmwyth y diwrnod. Gyda diolch arbennig hefyd i holl noddwyr y diwrnod.

Mae lluniau arbennig i'w trysori ar gael ar wefannau cymdeithasol y sir ac y clybiau, gyda ambell fideo o berfformiadau i'w gweld hefyd, byddwch yn siwr o fynd i fusnesu!

Tan tro nesa',

**Lois Caerloda**



Ensemble lleisiol Caernarfon



Ensemble lleisiol Dyffryn Nantlle



Unawd - Cian Rhys



Enillwyr y gadair a'r goron

## LLANDDEINIOLEN



**Eglwys Sant Deiniol**

Cafwyd Gwasanaeth arbennig ynghyd â'r Cymun Bendigaid brynhawn Sul, 3ydd o Dachwedd fel rhagarweiniad i Sul y Cofio ar y 10fed.  Yn dilyn rhan agoriadol y Gwasanaeth, gadawodd y gynulleidfa yr Eglwys i gerddoriaeth yr organ a gwneud eu ffordd drwy'r fynwent tuag at y Gofgolofn Ryfel. Yno offrymwyd Gweddiau a chyflwyno Myfyrdod er cof am y bywydau a aberthwyd yn y ddau Ryfel Byd. Wedi dychwelyd i'r Eglwys, cyflwynwyd gweddiau er cof am anwyliaid ymadawedig cysylltiedig âr Eglwys a gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Ficer y Canon Naomi Starkey yn cael ei chynorthwyo gan John O. Jones, Santes Helen. Ar derfyn y gwasanaeth bendithiol hwn cafodd y gynulleidfa fwynhau lluniaeth ysgafn a chael cyfle i gymdeithasu.

Bydd y Gwasanaeth nesaf brynhawn Sul, 1af o Ragfyr am 3 o'r gloch y prynhawn, sef Gwasanaeth  Sul cyntaf yr Adfent, "Carolau'r Adfent" yng ngolau canhwyllau.



# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Gwynfor Williams, Argraig, Seion. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ddiwedd Hydref. Un o fechgyn Seion oedd Gwynfor â'i wreiddiau yn dynn ym mhridd ei filltir sgwâr. Saer oedd Gwynfor o ran gwaith beunyddiol ond bu llawer o'i gyfoedion yn tystio i'w allu i 'droi ei law' at sawl crefft.

**Oedfaon Rhagfyr**
Capel Cysegr:
1/12 Gweinidog; 8/12 Megan Williams; 15/12 Trefniant Lleol; 22/12 Nadolig y Plant a Gweinidog; 25/12 Gweinidog – Cymun Bore'r Nadolig
Capel Bethel:
1/12 Parch. Cledwyn Williams; 8/12 Parch. R.E. Hughes; 22/12 Donald Pritchard; 29/12 Parch. Huw Pritchard

**Llongyfarchiadau**
I rai sy'n dilyn hynt a helynt yr eisteddfodau efallai i chwi weld yr enw Lleucu Hughes yn ymddangos ymysg y llwyddiannus mewn cystadlaethau barddoni ac ysgrifenedig. Yn ddiweddar cipiodd gadair Eisteddfod Ysgol Godre'r Berwyn am yr ail flwyddyn yn olynol. Hefyd cafodd y fraint o gael ei gwahodd i fod yn aelod o un o dimau'r Talwrn yng Ngŵyl Gerallt yn y Bala yn ddiweddar. Tipyn o glod i fardd ifanc ar ei phrifiant. Mae Lleucu yn ferch i'r Parch. Euron Hughes a'i wraig Buddug, Seion gynt ond bellach Llanuwchllyn. Pob dymuniad da iddi yn y dyfodol.

**Diolch**
Dymuna Rhian Hughes ddiolch i bawb a gefnogodd ei hymgyrch tuag at Ymchwil Cancr y Fron. Diolch i bawb am brynu pwmpenni wedi eu gwau ac am bob cyfraniad. Diolch arbennig hefyd i staff Caffi'r Bedol am eu cymorth caredig yn gwerthu mwy o bwmpenni nag yr oeddwn yn ei ddisgwyl! Llwyddwyd i godi £506.

**Byddwch Wyliadwrus**
Cafwyd sawl cyfeiriad ar daflenni cymunedol Bethel am berson/bersonau yn crwydro'r pentref yn oriau'r nos yn cymryd cryn ddiddordeb mewn ceir. Mae camerâu ar furiau tai wedi tystio i'r gweithgareddau yma ond dim digon eglur i gael adnabyddiaeth glir. Mae eraill wedi dioddef ymosodiadau ar deiars eu ceir. Nid ydym yn gwneud ffafr â'r gymuned o guddio pwy yw'r rhain. Os oes gennych dystiolaeth, yna cysylltwch â'r heddlu.

**Caffi Cymunedol**
Cafwyd ymateb da i'r gweithgareddau celf a drefnwyd ar gyfer yr ieuenctid dros gyfnod hanner tymor. Diolch i bawb a gefnogodd. Fel y mae yn hysbys, mae becws Carlton yng Nghaernarfon wedi gorffen pobi. Hwy oedd yn darparu'r archebion bara ar gyfer y caffi. Y mae staff y caffi mewn trafodaethau gyda phoptai eraill fel bod y gwasanaeth yn bwrw ymlaen.

Mae gwaith wedi dechrau ar baratoi'r ystafell ar gyfer y siop. Y mae pwyllgor y caffi yn apelio am unrhyw grefftwyr e.e. seiri – all wirfoddoli i gynorthwyo gyda'r gosod y silffoedd etc. Buasai hyn yn gyfraniad gwerthfawr ac yn hwyluso'r paratoadau yn gynt. Cysylltwch â'r pwyllgor os gallwch gynorthwyo mewn unrhyw fodd.

Mae'n siŵr y bydd y 'Te Pnawn gyda Siôn Corn' yn weithgaredd boblogaidd yn y caffi. Y dyddiadau i'w cofio yw pnawniau 12fed ac 13eg Rhagfyr. Awgrymir eich bod yn cysylltu o flaen llaw i gadarnhau.

**Cyfle Holi**
Y mae'r Cynghorydd Sasha Williams wedi ymestyn gwahoddiad i'r etholwyr ddod i holi a thrafod mewn sesiwn 'galw heibio'. Cynhelir y cyfarfod yn y Caffi Cymunedol ar 24ain o Dachwedd rhwng 2.00 – 4.00pm.

**Clwb Bro**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd o'r Clwb ar ddydd Mawrth, y pumed, yn Festri Cysegr. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Mary Wyn Jones. Cytunodd Falmai Owen i gynrychioli'r aelodau ar Sul y Cofio, a gosod torch ar y gofeb yn enw'r Clwb.

Atgoffwyd yr aelodau y bydd y Cinio Nadolig yn cael ei gynnal yng Nghlwb Golff Caernarfon ar ddydd Mawrth, 3ydd o Ragfyr am 12.30pm. Mae croeso i aelodau ddod â rhodd ar gyfer y raffl.

Fel Clwb, rydym yn ffodus fod gennym aelodau gyda doniau amrywiol, a chafwyd prynhawn cartrefol yng nghwmni dwy ohonynt, Eirlys Williams a Cerid Mckinnon yn sôn am ddanteithion ar gyfer y Nadolig. Bu'r ddwy yn arddangos byrbrydau o fwydydd sawrus a melys a hefyd yn rhannu syniadau ar sut i ddefnyddio unrhyw fwyd sydd dros ben. Yn ystod amser paned, cawsom gyfle i flasu'r gwahanol fwydydd.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r ddwy gan y Llywydd. Paratowyd y baned gan Eirlys Sharpe a Megan Humphreys. Enillwyd y raffl gan Owena Hughes.












FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
www.fframia.com FFRAMIO LLUNIAU




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS




**Trist**
O fewn ychydig fisoedd o wariant gan y Cyngor Cymuned ar wella y cysgod bws yng ngwaelod y pentref, trist sylwi bod cryn ddifrod wedi ei wneud i un cwarel eisoes. Nid oes bwced di-waelod gan unrhyw awdurdod heddiw, a mwy na thebyg y diniwed fydd yn dioddef unwaith eto.

**Beth am Fentro**
Bydd Eisteddfod y Felinheli yn cael ei chynnal ar 1af o Chwefror ac mae'r testunau allan. Dyma gyfle i nifer o'n ieuenctid fagu profiad ar stepen drws. O gofio safon Eisteddfodau Bethel dros y blynyddoedd dyma gyfle arall i ymestyn profiad llwyfan. Gan gofio fod Eisteddfod Deiniolen a'r Cylch (7fed Mehefin) hefyd yn cynnig profiad.

**Sul y Cofio**
Mewn smyclaw daeth torf sylweddol draw at y gwasanaeth o goffâd a pharch ar libart yr ysgol. Cymerwyd y rhan flaenllaw gan ddisgyblion yr ysgol, a diolchwn i Mr. Parry y dirprwy-brifathro am ei ymroddiad at baratoi'r plant. Roedd yn teimlo fod naws arbennig i'r gwasanaeth am ein bod yn ymwybodol fod rhyfel mor fyw ag erioed. Gwarth i fyd di-glust, di-deimlad fod 70% o'r miloedd a laddwyd hyd yn hyn yn Gaza yn ferched a phlant. Roedd distawrwydd llethol y dau funud o dawelwch o wir deimlad ac ystyr. Yr un modd y datganiad tawel o'r 'Last Post' gan Rhiannon Elwyn.

Yn eu tro enwyd pob un o fechgyn yr ardal a gollwyd yn y ddau Ryfel Byd. Nodwyd man eu colli, a hefyd nad oes gan ambell un fedd swyddogol.

Cyflwynwyd torchau gan fudiadau a chlybiau y pentref: ar ran y pentref, Clwb Bro, Merched y Wawr, Pwyllgor y Neuadd, Clwb Snwcer, Clwb Pêl-droed Ieuenctid, Yr Ysgol, Menter Cymunedol a phlant y Pentref. Gosodwyd torch unigol gan deulu Hughie Thomas a enwir ar y gofeb, a chan y Cynghorydd Sasha Williams.

**Sul y Cofio 2024**
Mor wag sawl gwlad heb flagur – i'w 'fory;
cof oer plant y tostur.
Uwch bedd gwae, mae angen mur
i herio brath sawl eryr.
RLLJ

**Rhifyn Nesaf**
Cofiwch y bydd rhifyn arall o'r Eco yn gweld golau dydd cyn y Nadolig, ac yna rhifyn ddiwedd Ionawr. Ar gyfer y rhifyn nesaf, gofynnir i unrhyw gyfraniad gyrraedd y golygyddion erbyn dydd Gwener, 6ed Rhagfyr a bydd y rhifyn yn ymddangos ar 20fed Rhagfyr. Dyma eich cyfle i ddanfon unrhyw gyfarchion Nadolig/ Blwyddyn Newydd a hysbysu unrhyw weithgaredd fydd yn digwydd rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 1af o Ragfyr, bydd gwasanaeth o dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00pm. Ar y 15fed o Ragfyr, bydd Oedfa Nadolig y gymuned yn cael ei chynnal, i gychwyn am 5.30pm. Bydd cyfle i bawb gymdeithasu dros baned a mins peis wedi'r Oedfa. Ar fore Nadolig, y 25ain o Ragfyr, bydd Oedfa a Chymun yn cael eu cynnal yng Nghapel Cysegr, Bethel, i gychwyn am 10.00am.

**Pobol y Cwm**
Llongyfarchiadau i Gwenno Hughes (Rhes Glangwna, Tŷ Mawr gynt) wedi iddi gael ei chynnwys yn y llyfr newydd *50 Pobol y Cwm*, sy'n dathlu pen-blwydd y rhaglen yn hanner can mlwydd oed! Tybed faint ohonoch sy'n cofio'r rhaglen gyntaf?

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
Diolch yn fawr i griw y Gymdeithas am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref unwaith eto eleni – mae'n werth ei gweld – cadwch lygad amdani. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau – ymlaen i 2025!





**Marathon Eryri**
Diolch eto i'r criw fu'n helpu i baratoi a gweini'r lluniaeth i redwyr Marathon Eryri 2024 ym mhentref Llanberis. Yn yn y llun mae Catrin, Iona, Gwenno, Pepi, Chloe, Betsan, Lowri, Malan ac Elan. Mae Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn gwerthfawrogi'r cymorth gan drigolion y pentref a bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at ein costau blynyddol i dorri gwair y cae chwarae a sgwâr y pentref ynghyd â goleuadau'r goeden Nadolig.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Jayne Lloyd (Tyddyn Cae) wnaeth gydlynu Marathon Eryri am yr ugeinfed tro eleni. Dyma lun o Jayne yn derbyn anrhegion fel arwydd o ddiolch am ei gwaith di-flino gan Joan Glass, cyd-redwraig a orffennodd Marathon Eryri 1982 yn y trydydd safle, a Matt Bland, cynrychiolydd un o bartneriaid oes y digwyddiad, Pete Bland Sports.



Arddangosfa Patrwm Gwaith Ymgysylltu Dementia Actif a Llwybrau Llesiant





Cafwyd perfformiad gwych gan blant talentog Ysgol Brynrefail yn rhan o broject sbragio



Cymeriad newydd yr Amgueddfa Gwyneth



Glyn Hughes gyda llun o'i daid Hugh Richard Jones - fu'n chwarae rhan mor bwysig yn hanes sefydlu yr amgueddfa




Diwrnod olaf Amgueddfa Llanberis



Noson hwyl fawr am y tro i gyn staff, staff presennol a phartneriaid



Rhai o eitemau arbennig yr amgueddfa wedi'i labelu yn barod i'w symyd yn ystod yr ailddatblygu



Maldwyn Jones (Butch) sy'n ymddeol o'r amgueddfa ar ôl blynyddoedd o wasanaeth

# Hwyl am y Tro gan yr Amgueddfa Lechi!

Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth draw i'r Amgueddfa yn ystod wythnos hanner tymor ar gyfer ein wythnos arbennig 'Hwyl Fawr am y Tro'.

Roedd hi'n wythnos brysur, gyda theithiau o'r safle, perfformiadau gan ein hactorion yn y tai, gweithdai creadigol a chyfle i fwynhau amryw o brosiectau sydd wedi bod ar y gweill gydag aelodau o'r cymunedau lleol yn y misoedd diwethaf.

Roedden ni hefyd yn ffarwelio efo ambell aelod o staff sydd wedi bod efo ni ers blynyddoedd lawer. Mi gawsom gyfle dros banad a chacen i ddiolch iddyn nhw - a chael clywed ambell stori ddoniol am y blynyddoedd a fu!

Roedd dwy arddangosfa arbennig i'w gweld – yn y tai, roedd gwaith celf yn cynnwys jygiau a phlatiau papur wedi eu hysbrydoli gan liwiau'r tirwedd a chwiltiau traddodiadol a grewyd mewn dau weithdy gyda'r artist Rachel Evans.

Ochr yn ochr â gwaith serameg hynod Rhiannon Gwyn, roedd arddangosfa PATRWM yn cynnwys darnau clai cywrain wedi eu creu gan aelodau prosiect Llwybrau Llesiant Cyngor Gwynedd a grŵp Dementia Actif. Casgliad yr amgueddfa o batrymau pren a llechi cerfiedig oedd wedi ysbrydoli'r gwaith yma.

Cafwyd cyfle i gyfarfod cymeriad amgueddfa newydd hefyd – Gwyneth Robaits, gwraig weddw yn symud i fyw at ei mab yn Llanberis yn 1969, gan fyfyrio ar fywyd y cyfnod a dylanwad y chwarel ar y gymuned. Bu Rhian Cadwaladr wrthi'n cydweithio gyda'r gymuned i hel atgofion a syniadau am y cyfnod, cyn eu cynnwys yn y sgript. Bu llawer o chwerthin a hel atgofion hefyd mewn sesiwn bywiog yng nghwmni Arwel Jones yn trafod hanes y Darans, Clwb Pêl-droed Llanberis.

Ar y dydd Gwener, cafwyd gwledd o gerddoriaeth gyda'r Ffowndri yn atsain gyda thalentau'r criw o Ysgol Brynrefail fu'n rhan o brosiect 'Sbragio!' Bu'r disgyblion yn gweithio gyda Mari Morgan a Mali Elwy i ddysgu mwy am eirfa ac arferion y chwarel i ysbrydoli caneuon a cherddi newydd i'w perfformio, gan greu gwaith hynod effeithiol a theimladwy. Cafwyd hefyd noson arbennig i staff, cyn staff a phartneriaid i fwynhau'r amgueddfa am un tro olaf.

Ac er fod drysau'r Gilfach Ddu bellach wedi cau – mae'r safle wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd. Mae'r staff wedi bod yn gweithio'n galed yn trefnu, catalogio a phacio casgliadau yn barod i gael eu symud i storfa dros dro yn Llandygai tra bydd y gwaith ar y safle - dipyn o waith o ystyried fod dros 8,000 o wrthrychau i roi trefn arnynt…!

Gan fod yr hyn sy'n digwydd yn yr Amgueddfa mor anghyffredin ac arbennig – gofynnwyd i'r bardd Ifor ap Glyn grynhoi'r amser unigryw hyn mewn cerdd.

Wrth 'mochal ffiar, ma' isio mynadd
- fydd ddim corn heddwch am ddwy flynadd -
ond clywn ynghanol sŵn y tanio
blygion y cyfnod nesa'n glanio;
blynyddoedd da, yn llawn llygada,
a'u cerrig yn troi yn fara profiada.
Cyn hir daw'r dyrfa'n ôl i'r wledd,
i'r Gilfach Ddu ar newydd wedd!

**IFOR AP GLYN**

Cadwch lygad allan yn yr Eco ac ar ein gwefan dros y misoedd nesaf am fwy o ddiweddariadau o be sy'n digwydd yn yr amgueddfa – www.amgueddfa.cymru/llechi

# LLANBERIS

**Diolchiadau**
Dymuna Claire, Harri, Len a Gareth ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli nain, hen nain a chwaer annwyl, caredig ac arbennig. Hunodd Iris Morris yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ym mhresenoldeb ei theulu ar y 26ain o Fedi.

Dymunwn ddiolch i'r Parch John Pritchard am y gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ac i Gareth Jones, yr organydd. Hoffem, hefyd, ddiolch i E.W Pritchard am eu gofal arbennig a'r cymorth gyda'r trefniadau cynhebrwng.

Diolch enfawr am y llu cardiau a rhoddion hynod o hael a gyflwynwyd i'r teulu mewn cydymdeimlad ac er cof am Iris Morris. Mi fydd £600 yn cael ei gyflwyno i Sefydliad Prydeinig y Galon.

**Clwb Peldroed Llanberis**
Clwb 400 - 2024
Enillwyr -
Ionawr 2024
£50.00 - Helen Jones
£30.00 - Cain Edwards
Chwerfor 2024
£50.00 - Helen Parry
£30.00 - Maldwyn Jones
Mawrth 2024
£50.00 - Carys Williams
£30.00 - John Williams
Ebrill 2024
£50.00 - Cheryl Thomas
£30.00 - Heddwyn Jones
Mai 2024
£50.00 - Roger Jones
£30.00 - Jane Jones
Mehefin 2024
£50.00 - O B Griffiths
£30.00 - Aron Thomas
Gorffennaf 2024
£50.00 - John Williams
£30.00 - John Williams
Awst 2024
£50.00 - Elisabeth Williams
£30.00 - Eifion Efans

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hafnon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon Tachwedd / Rhagfyr / Ionawr**
Tachwedd:
24ain, 2.00pm - Mr Robert Morris
Rhagfyr:
1af, 10.00am - Dr Huw Tegid Roberts
8fed, 10.00am - Oedfa Gwasanaeth Carolau
15fed, 2.00pm - Oedfa Nadolig Y Plant
22ain, 10.00am - Parch John Pritchard
25ain, 10.00am - Bore Nadolig Oedfa Gymun Parch John Pritchard
29ain, 10.00am - Mrs Megan Lloyd Williams
Ionawr:
5ed, 10.00am - Dafydd Iwan

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau a Digwyddiadau mis Rhagfyr

1af Rhagfyr, 11.00am - Boreol Weddi
8fed Rhagfyr, 11.00am - Cymun Bendigaid
15fed Rhagfyr, 11.00am - Boreol Weddi
22ain Rhagfyr, 11.00am - Cymun Bendigaid
24ain Rhagfyr, 3.00pm - Gwasanaeth Wrth y Preseb. Croeso i bawb o bob oed.
Dydd Nadolig, 25ain Rhagfyr, 10.00am - Cymun Bendigaid
29ain Rhagfyr, 11.00am - Boreol Weddi

Nos Iau, 28ain Tachwedd - Ffair Nadolig y pentref yn yr eglwys rhwng 6.00 ag 8.00pm

7fed Rhagfyr, rhwng 10.30am a 12.30pm - Brecwast hefo Santa. £6 yr un (cynnig arbennig i 3 plentyn am bris 2) yn cynnwys anrheg bychan i bob plentyn.

11eg Rhagfyr, rhwng 2.00 a 7.00pm - Eglwys Agored i oleuo cannwyll i gofio am anwyliaid. Paned a mins pei ar gael.

22ain Rhagfyr, 2.00pm - Cyngerdd Nadolig Band Deiniolen a Chôr Dyffryn Peris.

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Clybiau crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:
**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis** - Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!
**Clwb Gwnïo** - yn y Ganolfan ar brynhawn Dydd Iau, 2.00 - 4.00 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Bellach mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul yn fisol trwy'r gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.

Diolch yn fawr, Eifion Roberts.

# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Hydref gan y llywydd Pat Jones. Darllenwyd llythyr y mis a chafwyd trafodaeth fer am y gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y misoedd nesaf.

Croesawyd Gareth Roberts o Menter Fachwen i'r cyfarfod a bu edrych ymlaen am ei sgwrs am ysbrydion. Cafwyd adroddiad diddorol ganddo am ysbrydion yr ardal megis y cysgodion ar Gadair yr Ellyll, yr Wyddfa oedd yn tywys pobl i ddisgyn dros yr ochr lethrog. Soniodd hefyd am y Ci Du oedd yn honni gweld ysbryd yn Chwarel Dinorwig. Roedd yn sgwrs hwyliog a chafwyd nifer o gyfraniadau o straeon arswyd gan yr aelodau. Talwyd diolch i Gareth Roberts gan y llywydd.

Ymhlith gweithgareddau Rhagfyr bydd cyfarfod y mis, sef noson Bingo Nadolig a Chinio Nadolig y gangen yn Y Felin, Pontrug ar 19eg o Ragfyr.

**Cydymdeimlad**
Gyda gofid y deallwyd am ymadawiad un a fagwyd yn y pentref, sef y diweddar Trefor Wyn Jones gynt o Fferm Cae Coch a fu farw yn 92 mlwydd oed ar 6ed o Dachwedd. Bu'n cartrefu am flynyddoedd lawer yn Uwch Llifon, Y Groeslon yn dilyn ei briodas â Myra yn 1960 ac yna am gyfnod yng ngwmni ei ddwy ferch Carol a'r ddiweddar Sharon. Bu'n dilyn galwedigaeth gyda Chwmni yr AA ac ymhlith ei ddiddordebau yr oedd cystadlaethau triathlon a'i hoffter o ganu.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i deulu a'i frawd Ken Jones, Cae Coch yn eu profedigaeth.

# NANT PERIS

**Eglwys St. Peris**
Gwasanaethau mis Rhagfyr

1af Rhagfyr, 9.30am - Boreol Weddi
8fed Rhagfyr, 9.30am - Cymun Bendigaid
15ed Rhagfyr, 9.30am - Boreol Weddi
22ain Rhagfyr, 9.30am - Cymun Bendigaid
Noswyl Nadolig, 24ain Rhagfyr, 11.00pm - Cymun Bendigaid
29ain Rhagfyr, 9.30am - Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir gwasanaeth bob bore Mawrth am 9.30am

Dydd Sadwrn, 23ain Rhagfyr rhwng 10.00am a 3.00pm - Ffair Nadolig, mynediad £3.50 i gynnwys paned a mins pei.

Dydd Sadwrn, 30ain Rhagfyr am 5.30pm - Carolau Nadolig wrth Borth yr Eglwys. Paned, gwin cynnes a mins pei yn yr Eglwys. Croeso cynnes i bawb.



# Ysgol Penisarwaun





**Disgyblion newydd**
Soniwyd am y disgyblion newydd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, efallai i chwi sylw nad oedd lluniau ohonynt. Camgymeriad ar ran yr ysgol oedd hwn. Gweler y llun wedi ei gynnwys y tro hwn. Ymddiheuriadau am y camgymeriad.

**Diwrnod Archarwyr**
Yn ystod ein gwaith thema "Ydi pob arwr yn gwisgo clogyn?", roedd y plant yn awyddus i ni gael diwrnod archarwyr yn yr ysgol. Cawsom hwyl yn dawnsio, creu clogyn a mwgwd archarwr ac yn chwarae rôl. Roedd pawb yn lliwgar iawn yn eu dillad archarwyr!

**Ymweliad gan aelodau o dîm achub mynydd Dyffryn Ogwen.**
Cawsom ymweliad gan aelodau o Dîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Cawsom weld yr offer maent yn ei ddefnyddio wrth eu gwaith. Cafodd bawb dro yn gorwedd ar y *stretcher* ac i eistedd yn y Landrover. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser, rydym wedi dysgu llawer am eu gwaith pwysig.















**Taith Fferm Henbant**
Fel rhan o'u hastudiaeth ar y thema "Gofalu am ein Byd" y tymor hwn, cafodd disgyblion y dosbarth Iau ymweld â fferm Henbant ym Mhontllyfni. Cafwyd gweithgareddau ar y fferm yn ogystal â sesiynau yn y goedwig lle cafodd y disgyblion amryw o brofiadau awyr agored, gweithio fel tîm yn ogystal â dysgu am fod yn hunangynhaliol. Cafwyd diwrnod llawn hwyl a phawb wedi dysgu a chael profiadau newydd.

**Paid Cyffwrdd, Dweud**
Yn ystod y mis a aeth heibio cafodd disgyblion Cyfnod Sylfaen a'r dosbarth Iau wersi "Paid Cyffwrdd Dweud" a "Peidiwch yfed - Meddwl" fel rhan o'r rhaglen addysg cyffuriau ac alcohol arbenigol sydd wedi ei chynllunio yn benodol ar gyfer plant oedran cynradd Gogledd Cymru. Cafwyd amryw o negeseuon pwysig iawn wedi eu cyflwyno drwy amrywiaeth o gyfryngau er mwyn meithrin hyder disgyblion i gadw eu hunain yn ddiogel.





**Dathliadau'r Nadolig**
Bydd Ffair Nadolig yr ysgol yn cael ei chynnal yn y Neuadd nos Fercher, 4ydd Rhagfyr am 6.00pm Diolch i gyfeillion yr ysgol am eu gwaith yn trefnu. Croeso cynnes i bawb.

Sioe Nadolig yr ysgol - Eleni bydd y disgyblion yn perfformio'r Sioe "Llew Frenin" yn y Neuadd Nos Fawrth 17eg Rhagfyr. Croeso i bawb.

**Hoffwn ddiolch i bawb am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad drwy gydol y flwyddyn. Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.**



# Seremoni torri'r dywarchen yn nodi dechrau datblygiad tai cyntaf Cyngor Gwynedd drwy gynllun Tŷ Gwynedd




Cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, OBR Construction, Saer (penseiri), a disgyblion o Ysgol Dolbadarn yn nodi dechrau swyddogol i gynllun Tŷ Gwynedd yn Llanberis.

Cynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen yn ddiweddar ar gyfer datblygiad Tŷ Gwynedd y Cyngor i ddathlu dechrau'r gwaith o adeiladu tai fforddiadwy i bobl leol yn Llanberis.

Dros y misoedd nesaf, bydd Cyngor Gwynedd yn adeiladu eu tai cyntaf ers dros 30 mlynedd ar y safle, er mwyn darparu mwy o dai o safon uchel i bobl Gwynedd. Mae'r cartrefi newydd yn rhan o brosiect datblygu tai uchelgeisiol Tŷ Gwynedd y Cyngor, gyda'r nod o adeiladu 90 o gartrefi ledled y Sir.

Rhoddodd cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, OBR Construction, Saer (penseiri), a disgyblion o Ysgol Dolbadarn y rhawiau cyntaf yn y ddaear i nodi dechrau swyddogol y prosiect hwn.

Yn Llanberis bydd tri thŷ yn cael eu codi, sef dau dŷ pâr gyda dwy ystafell wely; ac un tŷ ar wahân gyda thair ystafell wely. Bwriad y tai yw diwallu anghenion pobl leol, yn enwedig rheini sy'n ei chael hi'n anodd prynu neu rentu cartref ond sydd efallai ddim yn gymwys am dŷ cymdeithasol.

Bydd y tai hyn yn cael eu hadeiladu yn dilyn egwyddorion penodol, sef eu bod yn fforddiadwy, addasadwy a chynaliadwy. Yn ogystal, bydd y cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gyda ffocws ar effeithlonrwydd ynni, gan ddefnyddio technolegau gwyrdd a dyluniadau arloesol i gadw'r tai yn gynnes a'r biliau ynni yn isel. Bydd llechi lleol Cymreig yn cael eu defnyddio ar y toeau.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o Gynllun Gweithredu Tai ehangach Cyngor Gwynedd, sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r prinder tai yn y sir drwy ddarparu dros 1,000 o dai fforddiadwy erbyn 2027.

Disgwylir y bydd y gwaith adeiladu yn cwblhau o gwmpas haf 2025 a bydd y tai yn cael eu dyrannu drwy Gofrestr Cartrefi Fforddiadwy Tai Teg. I weld y meini prawf cymhwysedd ac i gofrestru diddordeb, ewch i wefan Tai Teg: https://taiteg.org.uk/cy/

Dywedodd y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd:

"Rydym yng nghanol argyfwng tai, ac mae'n hanfodol ein bod yn codi mwy o dai i fynd i'r afael â'r prinder dybryd o gartrefi fforddiadwy yn ein cymunedau.

"Mae Tŷ Gwynedd yn un o'r prosiectau allweddol o fewn y Cynllun Gweithredu Tai, ac mae'n foment o falchder personol mawr gweld y weledigaeth yma'n dechrau cymryd siâp ar ôl blynyddoedd o gynllunio trylwyr gan swyddogion y Cyngor. Hoffwn ddiolch i bawb a ymunodd â ni yn y digwyddiad i ddathlu'r garreg filltir arwyddocaol hon yn Llanberis, yn enwedig plant Ysgol Dolbadarn, sy'n cynrychioli dyfodol ein cymunedau.

"Mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond un o blith nifer o gynlluniau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r argyfwng yw hwn. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys darparu grantiau a benthyciadau i helpu pobl Gwynedd i brynu ac adnewyddu tai, prynu eiddo i'w rentu i bobl leol am bris fforddiadwy a sawl cynllun i daclo digartrefedd yng Ngwynedd. Mae'r prosiectau yma i gyd yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn darparu'r hawl dynol sylfaenol o gartrefi diogel, fforddiadwy ac addas i bobl y sir."

# Un funud fach …

## PRYD Y'TH WELSOM?

Llond Dre o bobl a phlant. Llond awyr o liw a sŵn. Trefniadau effeithiol. A thywydd mwyn i goroni'r cyfan. Mi wnes i fwynhau Noson Tân Gwyllt Caernarfon eleni eto. Diolch i bawb a fu'n gweithio'n galed i drefnu noson wych a diogel.

Mi gawson ni le da i wylio'r sioe. Safle delfrydol i weld yr awyr yn cael ei goleuo. Delfrydol hefyd i glywed waliau'r Dre'n chwyddo cleciadau'r ffrwydron. O bosib mai dyna a wnaeth i mi deimlo bod y sŵn yn uwch nag arfer a pheri i'm meddwl grwydro ymhell y tu hwnt i lannau'r Fenai lonydd. Gwaetha'r modd, nid dyna'r tro cyntaf i'r fflachiadau a'r ffrwydradau fynd â mi am eiliadau oddi wrth rialtwch Noson Tân Gwyllt at erchylltra rhyfel. Mae o leiaf un o erthyglau blaenorol y golofn hon, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001 ac a gyfeiriai at y bomio yn Kabul, yn brawf o hynny.

Mynd i weld y tân gwyllt wnes i. Mynd i fwynhau'r sioe. Ond a ninnau'n clywed bob dydd am ryfeloedd mewn rhannau o'r byd, anodd iawn oedd peidio â meddwl am y bobl y mae fflachiadau a chleciadau iddyn nhw nid yn adloniant min nos ond yn berygl parhaus. Ac os rhywbeth, roedd presenoldeb tri drôn uwch y Fenai yn ychwanegu at ddychryn y ddelwedd. Nid camerâu sy'n tynnu lluniau hardd ydi cargo'r dronau uwch Gaza a Libanus ac Israel heno ond taflegrau a bomiau sy'n dryllio a lladd.

Ystrydeb bellach ydi deud ei bod yn amhosibl i'r rhelyw o bobl ddychmygu'r arswyd o fyw yng nghysgod y dronau difäol a'r saethu diddiwedd. Ac er dirfawr gywilydd i fyd di-hid, yng nghyd-destun Gaza a'i phoblogaeth, ystrydeb ydi hyd yn oed y trafod am hiliaeth a hil-laddiad. Ond ystrydeb neu beidio, dyna sy'n digwydd dan lywodraeth Benjamin Netanyahu. Rhan o ynfydrwydd ein byd syrthiedig ydi bod oes sydd mor aml yn gyfiawn o awyddus i ymddiheuro a gwneud iawn am gamweddau ac anghyfiawnderau'r gorffennol yn dewis bod yn ddall i droseddau un o'i llywodraethau ei hunan. Rheitiach na bod rhywrai yn y dyfodol pell yn cywilyddio ac ymddiheuro am yr hyn a wnaed i drigolion Gaza ar ddiwedd chwarter cyntaf yr unfed ganrif ar hugain fyddai i lywodraethau a phobl ein hoes fynnu bod y gormes a'r lladd yn dod i ben ar unwaith.

Un o'r pethau olaf a wnaeth Iesu Grist ar drothwy ei wythnos olaf ar y ddaear oedd rhybuddio'i ddisgyblion ynghylch y perygl o anwybyddu anghenion pobl eraill. 'Yn gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith' (Mathew 25:45). Yn briodol iawn, clywyd dyfynnu'r geiriau'n helaeth dros y blynyddoedd yng nghyd-destun tlodion a newynog ein byd. Ond am ryw reswm, ychydig o sylw a roddwyd iddyn nhw yng nghyd-destun Gaza dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae geiriau Crist yn fwriadol anesmwytho'r sawl a'u clyw ac yn herio pawb sy'n honni ei ddilyn i wneud popeth a fedran nhw er mwyn eraill sy'n dioddef mewn unrhyw ffordd. A hynny rhag i neb ohonom orfod deud yn Nydd y Farn derfynol, 'Arglwydd … pryd y'th welsom di'n newynog neu'n sychedig neu'n ddieithr neu'n noeth neu'n glaf neu yng ngharchar heb weini arnat?'

**JOHN PRITCHARD**

# Ysgol Brynrefail





**Cwrs Preswyl Daearyddiaeth Blwyddyn 12**
Bu disgyblion Daearyddiaeth Blwyddyn 12 ar gwrs gwaith maes preswyl i Lan Llyn, ynghyd â disgyblion o ysgolion eraill ledled Cymru. Buont yn casglu data ac archwilio rhai o'r cysyniadau a'r prosesau a ddysgwyd yn eu gwersi, gan ymweld ag amrywiaeth o lefydd gan gynnwys Y Bala, Fairbourne, Wrecsam a'r afon Lliw ger Trawsfynydd. Roedd gweithgareddau nos yn cynnwys saethyddiaeth, gyda Josh ac Iwan yn serennu! Da iawn i'r disgyblion am ymddwyn a chydweithio'n ardderchog, a diolch i'r Urdd ac adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Aberystwyth am drefnu a chydlynu'r tridiau.




**Nofwyr talentog Ysgol Brynrefail**
Llongyfarchiadau i Esyllt ach Rhys ac Elliot Meilleur o Flwyddyn 10 sydd ym mis Hydref wedi llwyddo i sicrhau lle yng Ngharfan Sylfaenol Perfformio Nofio Cymru sy'n dipyn o gamp.

Llwyddodd Dion Edwards sy'n y chweched dosbarth i ennill lle yn Nofio Cymru Cenedlaethol Trosglwyddo Elît. Mi fydd Dion yn cynrychioli Cymru yn Portugal yn mis Chwefror 2025. Newyddion gwych!

**Osian Morris, Blwyddyn 11**
Llongyfarchiadau i Osian sydd wedi derbyn newyddion cyffrous iawn yn ddiweddar. Mae wedi cael ei ddewis i ymuno â National Gravity Academy – Seiclo Prydeinig sydd yn rhaglen ddatblygu genedlaethol.

Mae Osian yn un o chwech yn unig sydd wedi cael eu dewis dros Brydain i gyd. Bydd hyn yn gyfle arbennig iddo ddatblygu ei sgiliau ar ei daith i fod yn Rasiwr Downhill MTB safon byd eang. Gwych Osian, rydan ni'n falch iawn o dy lwyddiant a phob hwyl i'r dyfodol gyda'r gamp yma.






**Taith Llundain Blwyddyn 8**
Ar daith yr Adran Saesneg yn ddiweddar i Lundain, cafodd 44 o fyfyrwyr, a 4 aelod o staff amrywiaeth o brofiadau bendigedig. Dechreuon ni yn yr Amgueddfa Hanes Natur a mynd ar daith gerdded o amgylch Llundain a orffenodd yn Pizza Express. Ar ôl i bawb lenwi eu boliau, aethom draw i wylio *Matilda* yn y West End; nid oeddem wedi'n siomi! Wedi hynny, cyrhaeddodd y myfyrwyr y gwesty wedi blino'n llwyr, ac yn barod i gysgu. Y bore wedyn, ymwelom â'r London Eye a'r Sea Life Centre.

Cawsom gyfle i dreulio amser yn Covent Garden cyn mynd adref. Cawsom yr amser mwyaf bendigedig!



**Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2024**
Eleni cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar ddydd Iau, 24ain Hydref ac unwaith eto roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol ac yn benllanw ar waith paratoi ac ymarfer ers wythnosau. Bu'r chweched dosbarth yn hynod o brysur yn hyfforddi'r disgyblion ar gyfer y gwahanol gystadlaethau.

Y beirniaid eleni oedd Nia Hâf ac Elidyr Glyn. Dywedasant eu bod wrth eu boddau yn ystod y dydd a gyda'r nos yn gwylio'r gwahanol gystadleuwyr talentog a'u bod wedi mwynhau'r awyrgylch hwyliog yn fawr iawn.

Un o gystadlaethau mwyaf poblogaidd y bore oedd y sgetsys a phawb yn mwynhau'r actio a'r hwyl. Sgets Gwyrfai oedd yn fuddugol. Cafodd y gynulleidfa lawer o hwyl hefyd pan ddaeth y caneuon ysgafn i'r llwyfan. Roedd cân wreiddiol pob tŷ yn dda iawn a chân Elidir enillodd. Daeth y partion canu iaith dramor i'r llwyfan i ganu'r gân Sbaeneg 'Danza Kuduro' yn llawn egni a'r enillwyr oedd Eilian.

Cân y parti bechgyn eleni oedd 'Byth yn Gadael y Tŷ' – cyfle i'r hogia ymddwyn yn cŵl! Tŷ Eilian unwaith eto aeth a'r wobr gyntaf. Canu 'Ti, Si Hei Lw' wnaeth y genod yng nghystadleuaeth y parti merched a thŷ Elidir ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth hon hefyd.

Parhaodd yr hwyl pan ddaeth y grwpiau dawnsio disgo i'r llwyfan. Gwelwyd llawer o wahanol fathau o ddawnsio ond y grŵp buddugol a berfformiodd yn broffesiynol iawn oedd tŷ Elidir.

Cafodd pawb ddaeth i wylio'r Eisteddfod yn y nos wledd ac mae'n anodd iawn dewis a dethol yr eitemau gorau.

Daeth y noson i ben gyda phedwar côr caboledig iawn yn ymddangos ar y llwyfan i ganu 'Ysbryd y Nos' ac Eilian unwaith eto yn fuddugol. Mae'n debyg bod dros dri chant o hanner o ddisgyblion wedi ymddangos ar y llwyfan, cymaint oedd niferoedd pob côr a pharti. Y canlyniad terfynol oedd Eilian yn gyntaf gyda 1313 o farciau, Eryri yn ail â 1103 marc, Gwyrfai yn drydydd gyda 1052 marc ac Elidir yn bedwerydd gyda 1045 o farciau.

Diolch i gapteiniaid y tai i gyd, y chweched dosbarth am hyfforddi, yr holl ddisgyblion a gymrodd ran, y beirniaid a'r athrawon a fu wrthi'n trefnu a pharatoi. Ymlaen yn awr at Steddfod 2025!

## CHWILAIR MIS RHAGFYR

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | C | O | E | L | C | E | R | Th | Y | C | A | L | A | N |
| B | C | D | W | F | S | R | Ff | Y | G | R | C | M | Dd | S |
| E | T | Ng | H | P | T | D | A | S | P | Y | Y | Ll | U | L |
| L | U | D | E | Ll | C | O | R | B | E | M | F | N | R | Y |
| D | A | F | L | H | O | C | N | R | R | W | L | O | N | F |
| W | L | G | A | L | I | A | T | Y | A | E | A | P | I | A |
| C | O | E | D | E | N | N | A | D | O | L | I | G | A | R |
| A | R | D | R | Ph | E | H | D | I | N | Y | Th | C | D | I |
| L | A | E | Y | A | T | W | F | O | A | Dd | R | T | A | L |
| E | C | P | W | M | S | Y | C | N | D | L | Ff | S | U | W |
| N | R | A | B | A | Th | Ll | R | Y | O | W | P | U | M | Y |
| N | S | W | R | D | A | A | N | Rh | E | G | I | O | N | D |
| I | U | T | I | C | L | U | D | O | D | Ŵ | R | T | B | E |
| G | D | Y | D | T | E | C | U | A | I | D | R | A | C | X |
| U | T | A | Ff | I | T | R | I | O | G | O | T | G | C | Y |

# ARFERION A THRADDODIADAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD!

Trowch i dudalen 30 am wybodaeth pellach am rai o draddodiadau ac arferion Cymreig o gwmpas y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae dau beth yn y chwilair sydd yn enw gwahanol am yr un peth. Allwch chi ddod o hyd i'r ddau?

Cewch yr atebion i'r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Nadolig Llawen i bob un o'n darllenwyr!

**ADDURNIADAU**
**ANRHEGION**
**CALENNIG**
**CANHWYLLAU**
**CARDIAU**
**CAROLAU**
**CLUDO DŴR**
**COEDEN NADOLIG**
**COELCERTH Y CALAN**
**CYFLAITH**
**HELA DRYW**
**TAFFI TRIOG**
**Y FARI LWYD**
**YMWELYDD**
**YSBRYDION**

## CHWILAIR MIS TACHWEDD - ADAR YSGLYFAETHUS!

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | C | B | O | D | I | N | Dd | A | D | Y | S | Ô | L | G |
| O | U | R | M | A | E | R | Y | R | E | U | R | A | I | D |
| M | D | S | N | U | B | O | D | Y | M | Ê | L | Ch | F | N |
| A | Y | C | F | E | G | N | E | W | N | I | T | D | O | B |
| E | Ll | I | P | D | T | Dd | H | Y | F | A | N | W | E | T |
| T | B | H | Ll | O | R | S | E | R | Y | R | Y | M | Ô | R |
| Th | A | C | N | W | B | A | R | C | U | D | C | O | Ch | U |
| R | Ch | D | E | C | U | D | Y | Ll | C | O | Ch | F | G | Ê |
| A | E | G | W | A | L | Ch | G | L | A | S | T | P | A | C |
| M | B | L | O | H | E | B | O | G | T | R | A | M | O | R |
| Ch | G | U | S | R | D | I | B | A | D | A | C | I | S | L |
| L | B | O | D | Y | G | W | E | R | N | I | Y | N | Y | S |
| A | N | S | B | A | R | Y | H | G | E | I | R | W | Ll | E |
| W | T | U | E | S | B | O | D | B | A | C | S | I | O | G |
| G | W | A | L | Ch | Y | P | Y | S | G | O | D | M | Ê | L |

BARCUD COCH
BOD BACSIOG
BOD TINWERN
BOD Y GWERNI
BOD Y MÊL
BWNCATH
CUDYLL BACH
CUDYLL COCH
ERYR Y MÔR
ERYR EURAID
GWALCH GLAS
GWALCH MARTH
GWALCH Y PYSGOD
HEBOG TRAMOR
HEBOG YR EHEDYDD

Gobeithio eich bod wedi dod o hyd i bod un o'r adar yn y chwilair. Tybed a welsoch chi ambell un ohonynt yn ym mro'r Eco hefyd?


**Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned**
**Age Cymru Gwynedd a Môn**




Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn,** Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £7 neu gost prif gwrs a phwdin yn £10 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost megan@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru

**E. W. PRITCHARD**
*Trefnwyr Angladdau*
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

**Gwasanaeth Gwres a Plymio**
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

# PENISARWAUN



**Prosiect Pum Mil**

Bu'r pentref yn llawn camerau teledu a sgips ddechrau'r mis ar gyfer rhywbeth arbennig iawn - gweddnewidiad Neuadd Santes Helen dan arweiniad Prosiect Pum Mil ar gyfer S4C. Diolch yn fawr i bawb fu'n cymryd rhan yn y prosiect - boed yn rhan o'r trefnu neu yn rhannu eu sgiliau, peintio a glanhau. Ni fyddai'r prosiect wedi digwydd onibai am waith trefnu Rhiannon Jones - cawn glywed isod gan Rhiannon am ei phrofiad.

"Ym mis Ionawr eleni, cysylltais â Phrosiect Pum Mil i weld a fyddent yn ystyried Neuadd Santes Helen ar gyfer y rhaglen. Ymhen ychydig wythnosau daeth tim PPM draw i'n gweld, ac ar ôl gweld y dirywiad yn yr adeilad, dywedsont bod ein cais yn un cryf iawn. Ond yn anffodus ni fuodd ein cais yn llwyddiannus y tro hwn.

Yn dilyn hyn, rhoddais y newyddion drwg ar dudalen Facebook Penisarwaun, Pentref Ni ac yn syth daeth cynnig o ffenestri newydd i'r Neuadd gan **Barry Jones, Altra Glass.** Bu Barry a'i fab, Josh, yn brysur yn tynnu'r hen ffenestri a gosod rhai newydd yn eu lle. Roedd ffenestri newydd wedi gwneud byd o wahaniaeth i'r Neuadd – cadw gwres mewn yn well a rhoi edrychiad ffres i'r adeilad.

Wedyn, allan o unman cefais alwad ffon gan PPM yn gofyn a oedd dal diddordeb gennym i fod ar y rhaglen. Derbyniwyd y cynnig gyda chryn gyffro a dyna ddechrau ar y gwaith mawr o gael pobol i wirfoddoli a chynnig eu sgiliau. Chwilio am beth bynnag allwn gael yn rhad ac am ddim neu yn rhatach na'r pris gwreiddiol!

Trwy waith caled PPM a thrigolion y pentref, llawer iawn o ebyst yn ôl ac ymlaen a llu o alwadau ffôn dros y misoedd, dechreuodd y prosiect ddod at ei gilydd. Roedd awyrgylch gyffrous yn y pentref a phawb yn edrych ymlaen i weld y prosiect yn digwydd.

Yn ystod y prosiect, gofynnodd PPM i mi fynd a fy ngheffylau i'r neuadd pan oeddynt yn ffilmio tu allan i'r Neuadd - ni alla'i ddweud mwy am hyn rhag sbwylio y sypreis!


Dros gyfnod o wythnosau mae yr adeiladwyr wedi bod yn gweithio yn hwyr yn y nos, a sgipiau yn cael eu llenwi a'u gwagio, un ar ôl y llall.

A dyna ni yn cyrraedd penwythnos ola'r prosiect dechrau mis Tachwedd – roedd 'na lu o weithwyr a gwirfoddolwyr, seiri coed, trydanwyr, plymars, pobol yn peintio a glanhau. Gorfod darfod bob dim a chlirio'r neuadd yn barod am y *'Big Reveal'* ar nos Lun cyntaf mis Tachwedd. Cefais rybudd i beidio mynd yn agos i'r Neuadd tan 4 o'r gloch ar y pnawn Llun.

Wel, mam bach! Pan es i mewn (a'r camerau yn fy ngwyneb) wyddwn i ddim lle i edrych gyntaf ac roedd yn anodd credu be roeddwn yn ei weld. Roedd y trawsnewidiad yn wyrthiol! Yn wir, anodd credu faint o waith sydd wedi digwydd - cegin newydd, lliwiau ar y waliau, y gwaith celf, y toiled newydd yn addas i rhywun hefo anabledd a lle i newid babi! Chwarae teg mae PPM wedi meddwl am bob dim – gormod o lawer i'w rhestru yma. Rhaid disgwyl i weld y rhaglen!

Gobeithio y caiff Neuadd Santes Helen ei defnyddio am genedlaethau i ddod. Hoffwn ddiolch eto i Prosiect Pum Mil ac i bob un a roddodd eu hamser a'u sgiliau i drawsnewid yr adeilad yma sy'n agos iawn at galon y pentref. Cofiwch wylio'r rhaglen pan fydd ar y teledu yn y flwyddyn newydd i weld ambell sypreis arall!





# Pentref Bethel yn ysbrydoli nofel newydd Angharad Price

Roedd llawer ohonon ni'n falch iawn rwy'n siŵr o weld nofel newydd gan Angharad Price yn cael ei chyhoeddi fis Tachwedd, *Nelan a Bo*. Mae Angharad Price yn dweud mai pentref Bethel ble cafodd ei magu oedd y brif ysbrydoliaeth ar gyfer ei nofel newydd.


Mae *Nelan a Bo* yn adrodd hanes dau ffrind pennaf a'r newidiadau enfawr a welwyd yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg – y cyfnod y cafodd y Gymru fodern ei chreu ym marn yr awdur.

Mae'r nofel yn cychwyn yn 1799, pan fo'r ddau brif gymeriad, Nelan a Bo, yn 10 oed. Roedd y chwyldro diwydiannol ar droed ac anghydffurfiaeth yn ennill ei lle.

Ond mae'r nofel hefyd yn stori gariad rhwng Nelan a Bo – cariad sy'n para, gyda'i liwiau cyfnewidiol yn creu patrymau blêr o ystyr ac o deimlad ar gynfas lom y rhostir.

Meddai'r Angharad Price, "Y pleser o gael fy magu ym Methel oedd prif ysgogiad *Nelan a Bo*. Fel llawer o bentrefi ar hyd a lled Cymru, mi dyfodd y pentref yn sgil diwydiannaeth ac anghydffurfiaeth o gwmpas y flwyddyn 1800.

"Yn achos Bethel, mi dyfodd gwareiddiad cyfan allan o ddarn o rostir digon llwm. Roeddwn eisiau archwilio sut roedd y tyfu hwnnw wedi digwydd, ac yn fwy penodol, sut roedd y newid hwnnw'n teimlo i bobl ar y pryd.




"Mae Nelan a Bo, dau unigolyn arbennig sy'n ffrindiau gorau ar ddechrau'r nofel, yn mynd trwy'r gweddnewidiad hwn yn eu bywydau eu hunain.

"Mae 'na ddylanwadau newydd yn cyrraedd. Dylanwad diwydiannaeth. Holl gyffro a theimladrwydd y Diwygiad Methodistaidd a Rhamantiaeth. A dylanwad llythrennedd hefyd, a rhesymeg a gwyddoniaeth fodern.

"Trwy wahanol gymeriadau, mae'r pethau yma i gyd yn effeithio ar Nelan a Bo mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ac yn trawsnewid eu bywydau nhw.

"Ar yr un pryd, mae'r nofel yn stori am gyfeillgarwch a chariad. Mae'r profiadau hynny rydan ni'n eu cael yn ein plentyndod mor bwysig ac mae eu harwyddocâd nhw'n cryfhau, nid lleihau, i rywun wrth fynd yn hŷn."

Mae Nelan a Bo gan Angharad Price yn cael ei gyhoeddi gan Y Lolfa ar gael mewn siopau llyfrau lleol ac ar-lein.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**




**Marathon Eryri**
Dymunir diolch i aelodau'r Pwyllgor a ffrindiau lu am wirfoddoli ar gyfer Marathon Eryri ar Sadwrn, 26ain Hydref. Yr orsaf fwydo sydd wedi'i ddyrannu i ni yn flynyddol yw'r ail orsaf, ym Mhen y Pas. Diolchir i'n Trysorydd, Glyn Jones, am ofalu am y trefniadau ac am ofalu am ein diogelwch gyda festiau adlewyrchol. Bu'n fore hynod o brysur a'r tywydd yn ffafriol iawn y tro hwn.

**Clwb Cant**
Erfynnir am gefnogaeth i'r Clwb Cant Medi 2024 i Awst 2025. Mae'n weithgaredd gref tuag at y gôst o redeg ein Neuadd Bentref.

Enillwyr Clwb Cant Tachwedd yw:
1af - Elen George, Brynrefail
2il - Beca Gwyn, Llanfair P. G.

**Dathlu'r Nadolig**
Byddwn, fel yr arfer, yn dathlu'r Nadolig yn y prynhawn ar y cyd â phlant yr ysgol gyda phaned a mins pei. Bydd y manylion yn y rhifyn nesaf.

**Ffair Nadolig**
Cynhelir Ffair Nadolig Cyfeillion Ysgol Gymuned Penisarwaun ar nos Fercher 4ydd Rhagfyr. Dewch yn llu i wneud eich siopa Nadolig a chefnogi'r ysgol.

**Pwyllgor Eisteddfod Bentref**
Nos Wener 15fed Tachwedd cynhaliwyd noson i ddathlu llwyddiant Eurgain Haf ar ennill, gyda chlod uchel, Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Bu'n noson i'w thrysori i Eurgain gyda mawr ddiolch i Ysgol Tan y Coed, Ysgol Brynrefail ac yn sicr i ddylanwad ein Eisteddfod Bentref flynyddol. Ceir adroddiad manwl am y dathlu yn y rhifyn nesaf.

**Llongyfarchiadau**
Llongyferchir Heulwen a Deiniol, 12 Bryn Eglwys, ar ddod yn Nain a Thaid balch i Llew Elis, mab bychan Mari a Gwyn, brawd bach a ffrind i Owi Deiniol a gor-ŵyr i Nain Nefyn.

**Eglwys Santes Helen**
Mae'r gwaith o foderneiddio Festri yr Eglwys dan nawdd Prosiect Pum Mil wedi mynd rhagddo yn llwyddiannus gyda'r ffilmio cyntaf wedi cymryd lle ganol Hydref ac wedi ei gwblhau rhwng yr 2il a'r 4ydd o Dachwedd.

Trefnwyd noson i blant y pentre ar 12fed Dachwedd i ddathlu cwblhau y gwaith.

Hefyd ar 19eg Tachwedd, noson o ddiolch i bawb fu'n ymwneud â'r prosiect – y noson i ddechrau gyda Gwasanaeth byr yn yr Eglwys cyn symud i'r Neuadd i dalu diolch i bawb fu'n ysgogi ac yn ymgymryd â'r gwaith o weddnewid yr adeilad.

**Gwasanaethau'r Eglwys am fis Rhagfyr**:
1af Rhagfyr - Sul Cyntaf yr Adfent
11.00 y.b. - Cymun Bendigaid
8fed Rhagfyr - Ail Sul yr Adfent
11.00 y.b. - Boreol Weddi
15fed Rhagfyr - Trydydd Sul yr Adfent
11.00 y.b. - Boreol Weddi
6.00 y.h. - Carolau gyda gorymdaith lanternau tu allan i'r Eglwys, gan orffen wrth y Goeden Nadolig.
22ain Rhagfyr - Pedwerydd Sul yr Adfent
11.00 y.b. - Cymun Bendigaid

**Nos Fawrth, 24ain Rhagfyr, Noswyl Nadolig**
9.00 y.h. - Gwasanaeth Naw Llith a Charolau.

Estynnir croeso cynnes i bawb i ddathlu'r Ŵyl ar drothwy Dydd y Nadolig.

29ain Rhagfyr - 11.00 y.b. Cymun Bendigaid



## CEUNANT

**Cofion a Gwellhad Buan**
Mae sawl un yn ardal Ceunant heb fod yn dda yn ddiweddar a rhai wedi cael llawdriniaeth hefyd. Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno gwellhad buan i chi.

**Dathlu Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Ann a Dean Lawton, Bryn Maen ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191

WAVELLS
EST 1973
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

Gwaith Coffaol LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

DYLAN GRIFFITH
Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)







# Y Festri

***CircoArts* yn dadorchuddio Rig Syrcas yn yr Awyr Newydd - Diolch i nawdd gan y Grid Cenedlaethol**

Mae *CircoArts* yn gynhyrfus wrth gyhoeddi iddynt brynu rig syrcas awyr newydd i'r Festri, oherwydd iddynt dderbyn grant hael o £19,600 gan y Grid Cenedlaethol tuag at y prosiect £28,000.

Rhannodd Thomasine Tomkins, Cyfarwyddwr Sefydlol Elusen Gymunedol Gelfyddydol a Menter Gymdeithasol *CircoArts* Y Festri, ei hapusrwydd,

"Mae hon wedi bod yn freuddwyd am amser mor hir â nawr mae'n realiti. Pan gerddais i mewn i'r Festri yn 2014, gwelais ei botensial ar gyfer syrcas awyr. Er bod y siwrne wedi bod efo heriau, ond nawr mae'n teimlo fel yr amser iawn i ddod â'r weledigaeth yma'n fyw."

Dylunwyd cyplyswyr (*truss*) y rig gan Gyfarwyddwr *CircoArts*, Tom Green, sydd ar hyn o bryd ar daith fel Rigiwr a Pherfformiwr i *NoFit State Circus*. Mae'r rig yn mesur 4 medr o daldra ac yn 5.5medr o hyd. Roedd ei gosod yn Y Festri yn sialens beirianyddol arwyddocaol, ac rydym yn hynod ddiolchgar i bawb gynigiodd gyngor neu helpodd ni i fesur ac ail-fesur y neuadd i sicrhau bod y rig yn ffitio'n berffaith.

Caniataodd y grant i ni brynu'r offer angenrheidiol awyr, gan gynnwys, sidanau, cylchau (*hoops*), trapîs a'r holl gêr rigio a diogelwch. Yn awr, gyda'r buddsoddiad, gall Circo Arts gynnig dosbarthiadau syrcas awyr yn Llanberis, gan ddarparu cyfle unigryw i'r gymuned. Yr wythnos hon lansiwyd cyfres o ddosbarthiadau peilot i ddarparu ar gyfer amrywiol oedrannau a galluoedd, ar gyfradd noddedig, diolch i'r Grid Cenedlaethol. Bydd *CircoArts* yn cyhoeddi sesiynau blasu ychwanegol yn fuan ac maent yn awyddus i glywed gan grwpiau penodol sydd â diddordeb mewn ymuno. Gobeithiwn y bydd y dosbarthiadau'n apelio at rai sy'n dymuno dod yn ffit, i drio rhywbeth creadigol, rhoi hwb i'r hyder, gwella iechyd meddwl neu wireddu breuddwyd oes o 'redeg i ffwrdd efo'r syrcas'."

Yn ychwanegol ariannodd grant y Grid Cenedlaethol sesiynau hyfforddi gwerthfawr. Cynhaliodd y rigiwr arbenigol Simon Edwards, o Nant Peris, gwrs diogelwch rigio am ddeuddydd yn rhad ac am ddim. Roedd cyfle i aelodau ieuenctid syrcas *CircoPyro*, ynghyd â chyfarwyddwyr *CircoArts*, gymryd rhan, gan ennill profiad ymarferol mewn adeiladu rig a'i dynnu i lawr.

Yn ychwanegol cynhaliodd *CircoArts* ddeuddydd o hyfforddiant athrawon sgiliau awyr am ddim i diwtoriaid a chynorthwywyr, arweiniwyd gan artist, hyfforddwr a rigiwr lleol Ethan Kith, sydd wedi ei leoli ym Maes Padarn. Tynnwyd hyfforddwyr awyr eraill at y cwrs, gan gynnig cyfle iddynt rwydweithio a chyd-weithio, gan gryfhau'r maes syrcas cyfoes yng Ngogledd Cymru.

Nod *CircoArts* yw gosod safon uchel o ragoriaeth yn Y Festri, hyrwyddo tyfiant cymunedol trwy addysgu, hyfforddi a chyfleoedd i berfformio, wrth fuddsoddi mewn pobl ifanc lleol. Fel mae Thomasine Tomkins yn esbonio, "Trwy ddod a'r rig syrcas awyr i'r Festri, rydym yn cysylltu â hanes y chwarelwyr yn gweithio ar uchder, gyda'r diwylliant modern o ddringo di-ofn. Rydym yn mynd â'r sgiliau hyn i gyfeiriad newydd, creadigol - a'i wneud mewn ffordd hardd a phwrpasol. Rydym mor ddiolchgar i'r Grid Cenedlaethol am wneud hyn yn bosib a 'rhoi rhywbeth yn ôl i'n cymuned' ar ôl yr amhariad achoswyd gan y gweithfeydd ffyrdd".

Cadwch olwg allan am ragor o ddiweddariadau wrth i'r prosiect cynhyrfus hwn barhau i dyfu.




# Ho-ho-hosan Nadolig Eco'r Wyddfa

Mae Dolig ar droed ac os ydach chi'n crafu pen yn trio meddwl am anrhegion meddylgar ac arbennig i'ch anwyliaid, peidiwch a phoeni, mae corachod bach Siôn Corn wedi paratoi rhestr o syniadau gwych am anrhegion perffaith o fro'r Eco.

Dyma flas o beth sydd ar gael yn ein hardal ni:







**1. Tanysgrifiad blwyddyn i Eco'r Wyddfa**
Dyma anrheg berffaith i ffrind neu aelod o'r teulu! Os prynwch danysgrifiad blwyddyn (Ionawr – Rhagfyr) fe gewch un rhifyn am ddim – dim ond £10 am 11 rhifyn, bargen yn wir!

Os ydach chi'n byw o fewn dalgylch yr Eco, bydd ein criw o ddosbarthwyr caredig yn danfon copi drwy'r drws i chi neu gellir archebu copïau digidol i'ch cyrraedd dros e-bost (£10 am flwyddyn). Gellir hefyd archebu copïau drwy'r post (£35 am flwyddyn).

I drefnu tanysgrifiad cysylltwch â Goronwy Hughes ar goronwy@lineone.net



**2. Danteithion ac anrhegion o siopau Menter Fachwen ac Antur Waunfawr**
Am anrhegion hyfryd wedi eu cynhyrchu'n lleol, beth am gynnyrch blasus a hardd Antur Waunfawr neu Menter Fachwen.

Mae siop Menter Fachwen ar stryd fawr Llanberis yn gwerthu anrhegion a nwyddau sy'n siŵr o blesio pawb ar eich rhestr anrhegion Dolig, o jam a mins peis i grefftau hardd neu gwrw Cymreig.

Mae gan Antur Waunfawr ddetholiad blasus a chwaethus o nwyddau wedi eu cynhyrchu gan griw Caffi Blas y Waun:

*"Mae ein detholiad o gynnyrch wedi'u crefftio â llaw – seidr, jamiau, siytni, a nionod wedi'u piclo – yn anrhegion meddylgar a blasus i ffrindiau a theulu dros y Nadolig. Mae pob eitem wedi'i chreu'n ofalus, gan ddwyn blasau lleol o Gymru sy'n rhoi naws bersonol i'ch anrhegion.*

*"Trwy roi anrheg o fusnesau lleol ein hardal eleni, nid yn unig byddwch yn cefnogi busnesau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, byddwch hefyd yn sicrhau bod y bunt yn aros yn lleol, gan gryfhau ein heconomi leol."*

**3. Crefftau a nwyddau o ffeiriau Nadolig lleol**
Mae dewis gwych o grefftau lleol ar werth mewn ffeiriau Dolig a'r awyrgylch nadoligaidd yn gymaint brafiach na phrysurdeb y strydoedd siopa mawr dros y ffin.

Mae ffeiriau llawer o ysgolion yr ardal wedi bod yn mis Tachwedd, ond bydd digon o ffeiriau eraill dros y mis i ddod os am anrheg personol gan artist neu grefftwr lleol.

**4. Llyfrau gan awduron lleol**
Mae'r corrach bach yma'n gobeithio y bydd yr hen Sionyn yn dod a rhai o'r llyfrau difyr sydd wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar iddi Dolig yma ac yn edrych ymlaen at gael hoe dros yr ŵyl i'w darllen! Pa anrheg gwell na llyfr i ymgolli ynddo ac mae llawer o awduron yr ardal wedi cyhoeddi llyfrau newydd - gweler tudalen 20 am nofel newydd Angharad Price. Mae Rebecca Wilson o Ddinorwig wedi cyhoeddi ei llyfr cyntaf i blant, *Gŵyl y Gaeaf*.

**5. Tocyn anrheg neu daleb**
Beth mae rhywun yn ei brynu i'r person hwnnw sydd efo bob dim? Beth am docyn anrheg am de prynhawn yn un o gaffis hyfryd yr ardal? Taleb i salon trin gwallt neu harddwch? Neu beth am docyn anrheg i roi cynnig ar chwarae offeryn, mynd mewn canŵ ar y llyn neu ddringo? Mae'r cyfan yn bosib gan gwmniau lleol bro'r Eco.

Neu hwyrach mai'r tocyn anrheg gorau fyddai addewid am eich cwmni chi yn 2025. Byddai hynny'n rhad ac am ddim ond yn werth y byd!

## Cyngor Cymuned Llanrug CYFARFOD 17EG MEDI, 2024

**1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

**2. Derbyniwyd cofnodion Awst yn gywyr ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.**

**3. Derbyniwyd adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd. (Copiau i'w cael gan y clerc)**

**4. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:**

- Adolygu'r gwaith ymarferol sydd ei angen yn y fynwent:
- **Penderfynwyd** bod angen gosod arwyddion newydd yn ymwneud â defnydd o'r gofod parcio a pharchu'r fynwent.
- **Penderfynwyd** cysylltu â pherchennog fainc i'w hysbysebu bod angen gwaith cynnal a chadw ar ei eiddo.
- **Penderfynwyd** bod angen gwaith ar rhai o'r stêcs ar y cerrig beddi cyn i unrhyw waith trwsio ar y cerrig beddi gymryd lle.
- **Penderfynwyd** caniatau cais am waith i osod cerbs ar gofeb oherwydd yr oedd y bedd yn y parth hynaf o'r fynwent gyda chofebion tebyg.
- Nodwyd unwaith eto gyflwr sâl y lôn i'r eglwys sydd angen sylw ar frys.
- Cafwyd cyfarfod ar y pryd gyda pherchennog y tir gyferbyn a'r fynwent er mwyn symud ymlaen gyda'r tendr ar gyfer gwaith ar y wal yn ymyl y fynwent.
- **Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

5. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

- Fod gwaith cynnal a chadw'r caeau chwarae yn mynd yn ei flaen
- Fod mainc newydd wedi cyrraedd i gae chwarae Cwm y Glo ac yn disgwyl i'w gosod.
- Fod siglen newydd wedi cyrraedd i gymryd lle'r un sydd wedi torri.
- Gwaith mewn llaw i adnewyddu ffens Pwll Moelyn.
- Gwaith yn cychwyn mis Tachwedd ar y Parc Sglefrio.
- Gwaith i dynnu'r ffens bren o gaeau Pwll Moelyn i gychwyn.
- Paratoi holiadur i Ysgol Gynradd Llanrug ar ba offer i'w ychwanegu yn y cae chwarae.
- Cymeradwywyd y rheolau ar gyfer y caeau chwarae.
- Paratoi arwyddion 'Dim Cŵn' ar gyfer pob mynediad a'r caeau chwarae.
- Gwirio fod y torch yn Y Sefydliad ar gyfer Sul y Cofio.
- Holi am bris ar gyfer diffibriliwr yn Crawia.
- Trefniadau Nadolig 2024. Y coed a'r goleuadau i fyny erbyn y 29ain o Dachwedd.
- Hyrwyddo cystadleuaeth addurno tŷ gyda'r cyfnod agored rhwng 29ain o Dachwedd a'r 15fed o Ragfyr.
- Beirniadu wythnos 16eg o Ragfyr rhwng 6 & 7 yr hwyr.
- Dilyn y drefn o roi bocs siocled i bawb sydd yn ymgeisio.
- Gwobrau eleni- Cyntaf £75, Ail £50, Trydydd £25
- Trefniadau hyfforddi ar gyfer y diffibriliwr ar y gweill
- Cerdded y llwybrau cyhoeddus ym mis Ebrill
- Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**6.** Nodwyd fod problemau gyda pharcio ar Lôn Rallt. Cwm y Glo.

**Penderfynwyd**: Fod hwn yn fater i Gyngor Gwynedd.

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 31

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd a hanner yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Mae cathod wedi eu gwneud i ddringo ac maent wrth eu boddau yn cael edrach i lawr i weld beth welan nhw. Pethau fel llygod a chreaduriaid bach sy'n mynd yn fan ac yn fuan hyd y llawr ac mae'n rhan o enynnau cath iddi fynd i hela. Yn hanesyddol roedd cathod yn hela adar yn nhop coed.*

*Tra bod cathod yn dda am ddringo i fyny coed, dydyn nhw ddim wedi eu gwneud cystal i ddringo nôl lawr. Y reddf ydy wynebu at i lawr ond mae siâp eu hewinedd yn ei gwneud yn anodd iddynt afael yn y rhisgl a dydyn nhw ddim yn ei chael yn hawdd i gyd-gordio eu coesau blaen a'r rhai cefn.*

*Peidiwch â phoeni os aiff eich cath i ben coeden, maent yn ddringwyr ardderchog ac anaml iawn wneith cath ddisgyn o ben coeden. Rhowch amser iddynt ac mi ddaw i lawr yn ei hamser ei hun, fel arfer, yn enwedig os ydy hi'n amser bwyd.*

*Peidiwch â'u nadu rhag dringo coed, mae'n un o'u hoff weithgareddau, heblaw bwyta a chysgu. Maent wrth eu boddau'n eistedd yn braf yn gweld eu libart nhw.*

*Wrth iddi ddod yn nes at y Nadolig, gwnewch yn siŵr bod eich coeden Nadolig yn gadarn, yn enwedig os oes cath yn rhannu'ch tŷ, dydach chi ddim am weld y cwbl lot ar y llawr. Crogwch addurniadau gwydr yn ddigon pell o'u cyrraedd, rhag i'r demtasiwn o chwarae efo nhw fod yn ormod ac iddynt fod yn ddarnau hyd y llawr!*

*Yn yr un ffordd mae blodau'r lili a phob rhan o'r amaryllis yn niweidiol i gathod. Byddwch yn ofalus hefyd efo aeron y celyn a'r uchelwydd gan eu bod yn wenwynig, nid yn unig i gathod ond i blant bach hefyd! Wnaiff ychydig o dwrci ddim drwg i'r gath ond gwnewch yn siŵr nad yw'n bwyta nionod, garlleg na grawnwin, raisins na siocled. Dim alcohol chwaith, gall hyd yn oed ychydig ddiferion fod yn beryglus i gath.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori …

" Mae gen i ryw deimlad bod rhywbeth ar bawen eto. Mae hi wrthi'n coginio mwy o fwyd nag arfer ac mae yma goed o bob math yn y tŷ, un go iawn yn y cyntedd, sydd efo lot o bethau wedi eu lapio mewn papur amryliw o dani hi. Ambell un o'r rhain efo oglau diddorol ond dydy fiw i mi fynd i snwyro



neu mae hi'n dwrdio! Mae yna goed smalio, efo neu heb oleuadau ym mhob ystafell i lawr grisiau hefyd a rwbath swnllyd yn mynd rownd mewn cylchoedd yn y parlwr, trên oedd y deu-droedyn mawr yn ei alw fo. Dwi'n penderfynu nad ydy fy hoff silff bellach yn lle diogel i gath fentro arni. Dydw i ddim yn mentro i fyny'r grisiau'n aml, ond hyd y gwelai dydy'r gath fach fu yma ddim wedi dod i'r fei eto a dydyn nhw ddim wedi ychwanegu coed i'r ystafelloedd yma.

Dwi felly'n cadw allan o'u ffordd nhw ac yn mynd i'r ardd i chwarae ar fy mhen fy hun, gan nad ydy'r pethau bach pluog na'r pethau bach blewog yn y waliau i'w gweld yn hoffi chwarae efo fi. Alla'i ddim meddwl pam chwaith. Gan nad ydw i'n gallu eistedd ar silff ffenast y parlwr, oherwydd yr holl bethau sydd, arno dwi'n mynd i eistedd ar ben un o'r waliau yn yr ardd. Gallaf gadw llygaid ar beth sy'n mynd ymlaen yno ac yn y cae.

Mae'r holl eistedd yn fy ngwneud i'n sychedig. Mae'r drws cefn wedi cau felly wn i lle i gael diod. Hawdd os ydach chi'n gallu neidio'n osgeiddig fel fi! Gen i deimlad fod gwell blas arno fo os ydy o ychydig yn wyrdd…

Wrth fod yn uwch i fyny dwi'n sylwi bod lot o bethau bach pluog i'w gweld yn y coed cefn. Wel does dim ond un ffordd o'u gweld nhw'n nes.

I fyny'r goeden a fi! Erbyn hyn mae'r deu-droediaid allan ac yn sbïo'n syn arnai.

'Be ti'n da yn fanna?' mae o'n ofyn.

Cathod a ŵyr be mae o'n disgwyl i gael fel ateb.



'Well i mi nôl ysgol!' meddai'r ddeud-droed fach.

Asiffeta mae'r deu-droediaid yma'n ddi-ddallt weithia! Ella mod i ychydig yn hŷn ac ychydig yn drwm ar fy nhraed ond mi fedrai ddod lawr yn iawn heb help! Gobeithio…

Ar ôl hynna i gyd dwi wedi blino'n lân…

Swpar sydyn, cynhesu o flaen y bocs tân. Maen nhw wrth y bwrdd yn bwyta, felly dwi'n sleifio i fyny ar ei chadair hi.

Cyn i mi gael napan, be fyddan nhw'n ei ddeud deudwch? O ia! Nadolig Llawen i bawb."




Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa | Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



AVW
ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Nodiadau Natur

Rydym wedi addurno ein tai ar yr adeg yma o'r flwyddyn ers amseroedd paganaidd. Roedd Paganiaiad yn defnyddio planhigion bytholwyrdd i gydnabod Byrddydd y Gaeaf (winter solstice) yn ogystal a'u hatgoffa bod y gwanwyn ar ei ffordd.

Penderfynodd y Pab Julius 1 mai'r 25ain o Ragfyr oedd penblwydd yr Iesu, a gan fod y dyddiad hwn o fewn dathliadau Paganaidd, cynhwyswyd rai o'u traddodiadau nhw i'r calendr Cristnogol, gan gynnwys addurno gyda planhigion bytholwyrdd, yn enwedig celyn. I Gristnogion roedd planhigion bytholwyrdd yn symbolau o fywyd tragwyddol ac yn addewid o adferiad bywyd yn y gwanwyn. Daeth planhigion bytholwyrdd yn symbolau o fywyd tragwyddol Duw ac yn ogystal daeth celyn i gynrychioli coron ddrain yr Iesu yn y Croeshoeliad, gyda'r aeron yn cynrychioli ei waed. Mae'n draddodiad sy'n mynd nôl ymhell bell yn ôl i addurno ein tai gyda dail a changhennau bytholwyrdd erbyn y Nadolig, ac erbyn y cyfnod Fictoraidd daeth yn ffasiynol i osod coeden bytholwyrdd yn y tŷ hefyd.

Y mis hwn cewch ddisgrifiad o dri math o wyrddni, sef celyn, uchelwydd (*mistletoe*) ac eiddew sydd wedi cael eu defnyddio i addurno ein tai ers canrifoedd.

A chofiwch roedd yr hen bobl yn credu ei bod yn anlwcus i ddod a gwyrddni i'r ty cyn Noswyl Nadolig nac i'w gwaredu cyn y 12fed noson sef Nos Ystwyll.

**Eiddew**

Enw gwyddonol - *Hedera* Enw Cymraeg arall arno - Iorwg

Enw Saesneg - *Ivy*

Planhigyn cryf sy'n ddringwr hunan-lynu (*self-clinging*) efo dail gyda thri i bump llabed (*lobe)* sgleiniog, bytholwyrdd, sydd yn aml efo gwythiennau gwyrdd golau. Weithiau bydd y dail yn gochlyd neu'n lliw efydd yn yr hydref. Bydd blodau melynwyrdd mewn clystyrau o bennau crwn yn ymddangos yn yr hydref, a fydd yn cael eu dilyn gan aeron duon yn y gaeaf. Mae'r blodau hyn yn hwyr yn yr hydref yn gyflenwad gwerthfawr o neithdar i loynod a phryfetach tra bo'r aeron yn bwydo sawl aderyn llwglyd yn ym misoedd oer y gaeaf.





**Celyn**

Enw gwyddonol - *Ilex aquifolium*

Enw Saesneg - *Holly*

Dyma blanhigyn sy'n tyfu'n araf pan yw'n ifanc. Mae ganddo ddail llyfn, sgleiniog gwyrdd (er bod rhai deuliw neu gelyn brith i'w cael) sydd, gan amlaf, yn bigog. Daw blodau bach gwyn arno yn y gwanwyn ac os yw'n blanhigyn benywaidd a bod un gwrywaidd yn y cyffiniau (er bod rhai'n hunanbeillio) ceir aeron coch llachar erbyn yr hydref. Gallant barhau ar y llwyn am fisoedd, ond os yw'n oer bydd yr adar yn gwledda arnynt. Jest y peth i addurno'r tŷ yng nghyfnod y Nadolig.



**Uchelwydd**

Enw gwyddonol - *Viscum album*

Enw Saesneg - *Mistletoe*

Mae hwn yn llwyn bytholwyrdd, sy'n wahanol i'r ddau arall gan ei fod yn rhannol parasitaidd (*partially parasitic)* h.y. mae'n cymryd dŵr a maetholynnau o'i blanhigyn cynhaliol, ond yn parhau i ymarfer y broses o *photosynthesis* drosto'i hun.

Mae ganddo ddail melynwyrdd sydd wedi eu gosod mewn parau ar goesau canghenog. Cynhyrchir blodau bach melynllyd yn y gwanwyn ac ar blanhigion benywaidd ceir aeron crwn gwyn i'w dilyn yn yr hydref a'r gaeaf. Mae'n blanhigyn sy'n gynhenid i wledydd Prydain gyda'r boblogaeth fwyaf yn ne a chanol Lloegr. Yn y gaeaf gallwch ei adnabod yn hawdd fel swp crwn, coediog ar ei goeden gynhaliol, sy'n aml yn goeden afal. Caiff yr hadau eu gwasgaru gan adar (y fronfraith a'r telor penddu). Yn ddiddorol mae'r telor penddu yn sychu ei big yn lan ar frigyn, tra bod yr hadau'n pasio drwy sustem dreulio'r fronfraith i egino.

Ffaith ddiddorol - tarddodd y garol '*Deck the Halls with Boughs of Holly'* yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg, sy'n dangos y defnydd parhaus o gelyn o fewn addurniadau'r Nadolig. Mae carolau eraill o'r un cyfnod yn sôn am eiddew a chelyn fel addurniadau.

Mae cysylltiad efo'r uchelwydd â'r derwyddon a'u seremoniau ac wrth gwrs mae'n draddodiadol i ddwyn cusan o dan yr uchelwydd!

Byddwch ofalus - dydy'r aeron o'r triawd hwn ddim yn dda i'w bwyta, felly cadwch lygaid allan os oes plant bach yn y teulu neu'n ymweld!

Nadolig Llawen i chi i gyd.





Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

# Ysgol Dolbadarn

**Gweithgareddau llesol**
Cawsom ddiwrnod llawn gweithgareddau wedi eu trefnu gan y Cyngor Eco. Cyfle i helpu'r amgylchedd!

Cafodd plant ieuengaf yr ysgol o Derbyn i Flwyddyn 2 wersi sgwtera gan Debbie o Sustrans Cymru, rhan o'n cynllun 'Teithio'n Llesol'.

Daeth Eric Baylis a'i ffrindiau draw i blannu bylbiau cenin pedr a chasglu sbwriel gyda blwyddyn 6. Roedd Llanberis dipyn glanach ar ôl i'r criw gasglu nifer o fagiau sbwriel!

Diolch i GwyrddNi, ddaeth i roi cyflwyniad i Blwyddyn 4 a 5 ar newid hinsawdd.

**Cyngerdd Achub y Plant**
Llongyfarchiadau i'r plant a gymrodd rhan mewn cyngerdd mawreddog gydag Annette Bryn Parry a llawer o artistaid mawreddog yn y Gadeirlan ym Mangor. Codwyd llawer o arian at elusen Achub y Plant. Perfformiodd y plant yn broffesiynol iawn ac roeddem yn falch iawn o bob un ohonynt.

























# Ar ben arall i'r lein

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i'ch sylw adroddiad ein cadeirydd Dr. Robin Parry am y flwyddyn.


Aelodau, cofiwch am y Pwyllgor Blynyddol eleni a gynhelir yn yr Institiwt, Caernarfon am 7.00pm nos Iau 12fed Rhagfyr, 2024.

**Huw Price Hughes**

**Adroddiad 2024**

Mae hi'n ddiwedd mis Hydref wrth i mi edrych yn ôl ar ein tymor ar gyfer yr adroddiad yma. I ddechrau gyda hanes y pysgota, rhywfaint yn gymysglyd oedd 2024.Ar ddechrau'r tymor roedd hi'n wlyb iawn ac yn oer drwy fisoedd Mawrth, Ebrill a dechrau Mai.  Araf braidd oedd pysgota brithyll ar yr afonydd dan yr amgylchiadau, a'r llynoedd hefyd yn dawel am yr wythnosau cyntaf. Roedd hi'n tynnu at ganol mis Mai cyn i'r brithyll ar ein dyfroedd ddechrau bachu'n gyson.

Yn uchel yn Rhyd Ddu roedd Llyn y Dywarchen wedi agor ar ddechrau Ebrill. Eleni roedd pysgod wedi eu pesgi yng Nghrawia wedi eu gosod yn y llyn cyn ddechrau'r tymor. Yn sicr, roedd yr oerni wedi amharu rhywfaint ar y daliadau, ond bu ambell sbel cynhesach yn y prynhawn a'r pysgod cryf wedi bod yn gafael yn dda ar bluen rhai pysgotwyr. Bu stocio cyson drwy'r tymor, ac yn ystod yr haf cafwyd dipyn o hwyl a daliadau da gan aelodau ac ymwelwyr. Roedd dyddiau gwlyb a gwyntog, ond roedd genweirwyr profiadol yn deall effaith y gwynt, yn arbennig felly ar leoliad y pysgod a chael manteisio arno'n llwyddiannus. Unwaith eto roedd Llyn y Dywarchen wedi denu aelodau newydd ac yn gyfrifol am werthiant tocynnau dydd drwy'rhaglen *Fishing Passport*. Roedd pysgod yn dal i afael ar ddiwedd mis Hydref, ac mewn cyflwr arbennig o iach. Diolch i'r criw sydd wrthi'n trefnu a gwneud y gwaith stocio, edrych ar ôl y cychod a'r holl waith sydd yn cynnal llwyddiant y llyn. Yn anffodus ar ddechrau'r haf roedd hanes y daliadau'n denu pysgotwyr nad oeddynt yn poeni dim am na thocyn na chaniatâd. Gofynwyd am gymorth yr heddlu ac ymddengys bod y broblem wedi gwella'n eithaf sydyn wedi'r sylw yma. Mae presenoldeb pysgotwyr ar y glannau hefyd wedi helpu.



Roedd y llynnoedd eraill wedi gwella hefyd. Daliwyd brithyll da ar Lyn Padarn o ddechrau'r haf hyd ddyddiau olaf y tymor. Weithiau roedd gymaint o ddraenogiaid  a brithyll yn dwad i law, ar ddyddiau eraill brithyll yn unig. Rydym yn dal i boeni am y chwyn Lagarosiphon sydd wedi ymledu 'mhellach a'i dros effaith ar y llyn. Gall hybu nifer y draenogiaid, a hefyd mae peryg i ddyfroedd eraill Eryri gyda'r holl ddefnydd heb ei reoli ar y llyn. Fe adroddwyd am y chwyn wrth CNC ar y diwrnod cyntaf y'i gwelwyd ym mis Chwefror 2023. Hyd yn hyn does dim camau ymarferol wedi eu cymryd ar wahân i arwyddion, sydd i'w gweld yn cael eu hanwybyddu'n rheolaidd gan nofwyr a defnyddwyr eraill. Mae sôn yn y dyddiau diwethaf bod rhaglen tynnu'r chwyn o'r llyn bellach yn cael ei drefnu, ond cawn weld.

Roedd yn flwyddyn dlawd, unwaith eto, i'r aelodau oedd yn pysgota'r eog. Cafwyd ambell lif da yn ystod yr haf. Daliwyd llond dwrn o eogiaid ar y Seiont ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Eleni eto doedd dim golwg o bysgod glân yn rhedeg tuag at ddiwedd y tymor. Dyma'r patrwm drwy Brydain, er bod niferoedd y pysgod yn yr haf yn uwch nac yn y blynyddoedd diweddar mewn rhai afonydd. Gobeithiwn fod cylch naturiol o ryw fath yn rhan o'r eglurhad. Mae cyflwr afonydd y Deyrnas Unedig yn denu sylw dyddiol yn y cyfryngau, er ein bod ni yma'n gyfarwydd ac wedi ymgyrchu yn erbyn llygredd o'r math dros y ddeg mlynedd ar hugain diwethaf.

Daliwyd llai o sewin eleni, yn sicr doedd dim cystal pysgota nos ar y Seiont, yn rhannol oherwydd llifogydd cyson. Roedd y sefyllfa'n debyg ar y Llyfni hefyd, gyda lleihad yn y niferoedd a ddaeth i law yn y tywyllwch. Ond roedd y tywydd wedi siwtio Llyn Nantlle a daliwyd brithyll da yn ystod y tymor.

Daeth y genweirwyr  o Ardal y Llynnoedd yn eu holau eleni i bysgota Cwellyn a chawsant dorgoch yno yn ystod mis Awst. Dangoswyd lluniau'r gwahanol ddaliadau ar ein safle Facebook sydd yn dal i ddenu diddordeb ac ymholiadau am docynnau. Cafwyd brithyll, ac ambell un da iawn, ar Cwellyn hefyd. Chlywais i ddim am ddaliadau ar yr Afon Gwyrfai.

Ar wahân i'r pysgota bu'r gwaith o dorri llwybrau, cynnal a chadw'n eiddo a thrin y cychod yn mynd ymlaen ymhob tywydd, mae diolch unwaith eto i'r rhai sydd wrthi ar ein rhan o'u pencadlys yng Nghrawia.

Mae Melin y Cim wedi creu incwm i'r Gymdeithas ers blynyddoedd bellach. Roedd newidiadau ym mhatrwm gwyliau yn dilyn y pandemig, a bu cyfnod anodd i rai sydd yn rhedeg llety o'r fath, ond eleni bu defnydd prysur ar y Felin sydd unwaith eto wedi bod yn hwb mawr ariannol i ni. Tu ôl i'r llenni mae cyfrifoldeb mawr a dipyn o waith ynghlwm â'i rhedeg, diolchaf eto i'r rhai sydd yn ysgwyddo'r baich.

Mae cytundeb cyfreithiol yn bodoli ers y 1980au oherwydd effaith codi Pwerdy Dinorwic ar fannau claddu'r eog a'r sewin. Stocio oedd y bwriad gwreiddiol,ond wrth gwrs mae'n anghyfreithlon bellach, er ei fod yn cael ei ddefnyddio i hybu 'r torgoch a'r misglod perlog. Gan fod problemau yn y môr yn cael eu beio am leihad yn nifer yr eog sydd yn dychwelyd i'w hafonydd, mae pwyslais ar wella cynefinoedd er mwyn gwneud y mwyaf o allu'r afon i gynhyrchu silod (er gwaetha llygredd a bygythiadau pluog). Bu gwaith diweddar ym Mhenllyn yn gosod meini yn yr afon ger y gwlau claddu, fel rhan o'r cytundeb yma. Yn ôl y sôn mae rhannu'r dyfroedd yn ddarnau llai yn gwneud hi'n fwy anodd i silod weld silod eraill, sydd yn cynyddu nifer y pysgod mân gall y man ei gynhyrchu a'i gynnal. Yn sicr mae angen pob cymorth ar ein pysgod.

Diolchaf ar eich rhan bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, a pharhau i'n cefnogi.

Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifenydd am ei waith yn 2024. Ond, unwaith eto, fel sydd yn digwydd yn flynyddol, tynnaf eich sylw at y ffaith ei fod wedi rhoi degawdau o wasanaeth a'i bod yn amser bellach iddo drosglwyddo'r cyfrifoldeb. Buasai cael aelod yn cynnig helpu yn gyfle i sicrhau llwyddiant y Gymdeithas i'r dyfodol.

Ar ran y swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a phob hwyl efo'r enwair yn 2025.

**Dr R Parry**



# Garddio

## RHAGFYR

Rhyfedd o fyd. Wrth ysgrifennu hwn bu diwedd Hydref a dechrau Tachwedd yn llonydd a mwll, ond yn eithaf cynnes. Ers troi'r clociau mae hi'n dywyllach yn y boreau ac wrth ddod adref o'r gwaith. Mae modd parhau i weithio'n yr ardd, er ei bod yn ei gwely, fel petai, erbyn hyn.

**Tasgau tu allan (os yw'n ddigon braf)**
Manteisiais ar y cyfle i lanhau y bwydwyr adar ym mis Tachwedd, ond rwyf yn ymwybodol bod angen parhau i wneud hynny (y tu allan - NID yn y tŷ) at ddiwedd Rhagfyr ac i'r flwyddyn newydd. Bydd angen dal ati efo'r bwydo hefyd, i gynnal ein cyfeillion pluog sy'n rhoi gymaint o bleser i ni wrth eu gwylio'n bwydo, ac yn achos y nico ffraeo ymysg ei gilydd!

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i roi taenfa *(mulch)* o gwmpas eich planhigion lluosflwydd (herbaceous perennials) os ydynt wedi marw i lawr neu 'dach chi wedi eu torri lawr. Mae'n ffordd dda i amddiffyn y pridd noeth ac yn gallu gwarchod planhigion tyner. Beth allwch chi ei ddefnyddio? Taenfa pwrpasol; haen o gompost (cartref os yn bosib); deilbridd neu rhisgl pren. Mae rwbath yn well na dim!

Os am gadw sioe o flodau daliwch ati i dynnu/torri pennau'r blodau. Torrwch trilliw'r gaeaf (*winter pansies*) ond tynnwch blodau'r syclamen (gan afael yn y bwlb wrth dynnu, rhag ei godi) yn glir o'r planhigyn.

**Tŷ gwydr**
Os ydach chi'n cadw planhigion tynerach yn y tŷ gwydr, cadwch nhw'n llaith yn hytrach na'n sych neu'n wlyb. Byddwch ofalus hefyd nad oes pla na llwydni'n effeithio ar unrhyw blanhigyn, gweithredwch yn syth, fel bo'r angen.

**Blodau'r Nadolig**
Dwi wrth fy modd yn cael blodau'n y tŷ'n ystod tymor y Nadolig. Mae digon o ddewis yn y siopau a'r canolfannau garddio. Ond dydy hi ddim bob amser yn hawdd i'w cadw'n fyw yng nghanol bwrlwm yr ŵyl nac ychwaith pan yw popeth wedi tawelu.

**Cactws Nadolig**
Mae'r cactus yma'n blodeuo'n dda (er i mi ei symud i botyn mwy ar ddiwedd mis Hydref) ac mae'r rhai pinc yn llawn blagur. Lwc mwnci - neu dwi'n dechrau'i dallt hi!



Gallant fyw am flynyddoedd, yn enwedig mewn ystafell efo digon o olau a heb fod yn rhy boeth a'u rhoi allan mewn lle cysgodol dros fisoedd yr haf.

**Chrysanthemums**
Soniais i mi dyfu *chrysanthemums* am y tro cyntaf llynedd. Cefais digon o flodau i'r tŷ ond doedd gen i ddim digon o wybodaeth am sut i dyfu mwy ar gyfer eleni. Mi lwyddais i gadw ychydig trwy gymryd toriadau, ond roeddwn yn rhy hwyr a di-glem yn gwneud hynny. Cafodd y planhigion gwreiddiol eu taflu allan o'r ty gwydr i wneud lle i bethau eraill, ac och a gwae, gan eu bod yn y cysgod mi dyfon nhw'n hir a heglog.

Felly eleni prynais blanhigion newydd a chael blodau hyfryd



Chrysanthemums

Ond mae rhai o'r rhai llynedd - diolch i ffrâm bwrpasol gan Mal, wedi parhau i flodeuo - er gwaetha'r gwynt a glaw yn Neiniolen. Rwyf wedi gweld llyfr am *chrysanthemums* mewn cylchgrawn garddio, mi fydd raid i mi ei berswadio i'w brynu i mi fel anrheg Nadolig. Ella bydd gwell siap arna'i wedyn ar gyfer 2025. Byddwn wrth fy modd yn gallu rhannu mwy o flodau o safon gwell i deulu a ffrindiau. Nid da lle gellir gwell ac mi ydw i'n hoffi sialens.

**Bylbiau**
Os ydach chi'n tyfu hyasinth neu'r *narcissi paperwhite* i gael blodau erbyn y Nadolig, mi ddylien nhw fod wedi torri drwy'r pridd bellach. Cadwch lygaid barcud arnyn nhw.
Cyn gynted ag y mae'r blagur blodau wedi ffurfio dewch a nhw i mewn i le claear (*cool*) a golau i ddatblygu'n naturiol.
Os ydynt i'w gweld yn agor yn rhy gyflym symudwch nhw i le oerach am wythnos neu ddwy i arafu'r tyfiant. Ar y llaw arall os ydyn i'w gweld braidd yn araf cyflymwch y broses dyfu trwy godi'r dymheredd ryw ychydig. Os ydy'r amodau'n rhy gynnes bydd y planhigion yn tyfu'n rhy goesog. A deud y gwir os nad ydynt yn barod erbyn y Nadolig mi fyddan nhw'n hardd yn y flwyddyn newydd a thu hwnt.

**Poinsettia**
Hardd, sy'n goch fel arfer ond gallwch brynu rhai pinc a gwyn. Peidiwch a gadael iddynt gael oerfel wrth eu trosglwyddo o'r siop/ganolfan arddio ac ar ôl eu cludo i'r ty cadwch nhw'n glir o'r gwresogyddion ond heb fod mewn drafft. Dydyn nhw ddim mo'r rhai hawddaf yn y byd i'w cadw'n fyw. Ond mae gen i ffrindiau sy'n eu cadw i fynd o flwyddyn i flwyddyn.

**Syclamen**
Mae'r rhain yn hardd mewn potiau tu allan efo bedding plants. Gallwch hefyd eu tyfu yn yr ardd o dan goed neu mewn borderi (llysiau'r ddidol). Dwi'n hoff o'r ddau fath ac mae llysiau'r ddidol yn tyfu yma bellach mewn llecyn lle nad oes fawr ddim arall yn tyfu. Gallwch hefyd fwynhau rhai mwy (*syclamen Persicum*) yn y tŷ fydd yn rhoi lliw ar silff ffenest am wythnosau. Point bonws o'u rhoi allan i orffwys dros fisoedd yr haf, mi gewch flodau bob blwyddyn yn y tŷ.

**Coeden Nadolig**
Os ydach chi'n defnyddio'r un goeden smalio bob blwyddyn, does dim o'i le ar hynny. Ond mae rhywbeth, allai fentro'i ddeud, sy'n fwy Nadoligaidd am gael coeden go iawn yn y tŷ. Does dim rhaid i neb gael coeden anferthol, dewiswch un sy'n ffitio'r gofod sydd ganddoch chi yn eich cartref chi. Mi ydan ni'n cadw'n ôl-troed carbon yn isel drwy brynu un lleol, heb wreiddiau, byw, bob blwyddyn a'i gosod mewn daliwr pwrpasol llawn dŵr. Mi ydw i wedi ystyried cael coeden efo gwreiddiau a dod a hi i'r tŷ o flwyddyn i flwyddyn, ond mae angen dipyn o ofal ar rhai tebyg, felly wna'i ddal at ein traddodiad ni a gwaredu'r un di-wreiddiau yn y bin brown yn y flwyddyn newydd.

**Traed i fyny**
Pan gewch chi gyfle yng nghanol y rhialtwch, ac os ydach chi ar wyliau'n hytrach na gweithio sortiwch eich hadau. Dwi'n euog o gadw pacedi, jest rhag ofn. Yn sicr mae angen hau moron yn ffres bob blwyddyn er gall y gweddill fod yn iawn am flwyddyn arall o leiaf.

Cynlluniwch ar gyfer y flwyddyn nesaf. Beth weithiodd eleni, beth oedd ddim cystal? Ydach chi angen cael gwared o ambell i beth? Ydach chi angen llenwi ambell i fwlch? Cynlluniwch beth roith flodau i chi pan yw'r ardd yn llwm a phlannwch pan yw'n amser iawn i wneud hynny.

Nadolig Llawen i chi i gyd!
***Rhosyn Mynydd***

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com

# Tyrpeg a Thollborth




Map Degwm Llanrug am ardal Caeathro.

Cwta hanner can mlynedd y bu'r tyrpeg mewn bodolaeth o fewn ein bro, a digon amhoblogaidd fuont am y cyfnod hwnnw. Er, rhaid cydnabod na fu gwrthwynebiadau chwyrn yn yr ardal hon ynglŷn â hwy fel yn ne-gorllewin Cymru; yr hyn arweiniodd at Derfysgoedd Beca yn 1839 ac 1844, oherwydd niferoedd uchel o dyrpegau mewn ardal amaethyddol dlodaidd. Felly, sawl tyrpeg a fu yn ein bro, a ble roeddent? A beth yn union yw ystyr y gair 'tyrpeg'?

Daw'r gair 'tyrpeg' o'r Saesneg 'turnpike', ond beth sydd a wnelo hwnnw a chodi toll am gael defnyddio ffordd arbennig? Mae'n ymddangos fod y gair yn deillio o'r arferiad o sicrhau hawliau teithwyr – a masnachwyr yn arbennig i gael mynediad i dref gaerog, ac i dalu'r doll am gael gwneud hynny.  Byddai'n rhaid i borth y dref fod yn ddigon llydan i warchodwr y porth allu 'troi' ei 'bicell' er mwyn caniatáu mynediad. A dyna a roes yr enw 'turn pike'. Yn llawer diweddarach defnyddiwyd yr enw i ddisgrifio'r ffyrdd, a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolaethau, a'r rheini, fel arfer, yn arwain o un dref i'r llall. Yn 1555 yn dilyn Deddf Seneddol, rhoddwyd y cyfrifoldeb am ffyrdd yng ngofal y plwyfi, ond doedd y ddeddfwriaeth ddim yn llwyddiannus iawn. Roedd nifer helaeth plwyfi'r wlad yn rhy dlawd i gynnal ffyrdd, er bod y plwyfolion eu hunain yn gorfod gweithio'n ddi-dâl am nifer penodol o ddyddiau i gadw ffyrdd y plwyf mewn cyflwr derbyniol. Roedd plwyfi eraill yn anwybyddu'r ddeddf yn gyfan gwbl. O fewn canrif roedd cyrff statudol yn cael eu sefydlu i wella a chynnal ffyrdd. Y cyrff statudol hyn oedd yr Ymddiriedolaethau Tyrpeg cyntaf.


Mae'n debyg mai'r Ymddiriedolaeth a sefydlwyd yn 1752 i wella a rheoli'r ffordd o'r Amwythig i Wrecsam oedd y gyntaf yng ngogledd Cymru. Cafodd Ymddiriedolaeth Sir Gaernarfon ei sefydlu tua 1768-69. Yn 1810 rhoddwyd hawl seneddol i'r Ymddiriedolaeth 'wella, lledu a thrwsio' dwy o'r ffyrdd oedd yn croesi drwy ardal bresennol *Eco'r Wyddfa*. Mae geiriad y ddeddf yn nodi *"From Caernarvon to the bridge at Beddgelert"* a *"From Caernarvon through Llanberis to Penygwryd".* (Llanberis bryd hynny, wrth gwrs, oedd y Nant Peris presennol). Yn anffodus, does dim cofnodion wedi goroesi o'r cyfnod cynnar hwn.

Ni chafodd y ffordd i Benygwryd ei chwblhau hyd 1831, ac yn ystod y degawd yn dilyn y daw gwybodaeth am y tollbyrth ym Mhen Llyn a Gwastadnant. Efallai fod tollborth ym Mhen Llyn cyn 1831, ond anhebygol fyddai hynny. Stad Glynllifon a fu'n gyfrifol am y ffordd o Chwarel Glynrhonwy i lawr at y bont, ac ni chafodd y bont ei hadeiladu hyd 1826. Pan werthwyd y bont i Stad y Faenol (ynghyd â holl dir Y Fachwen) roedd cymal yn y cytundeb yn gwahardd codi toll am ei chroesi.

Ar y ffordd o Gaernarfon i Feddgelert, yr unig dollborth o fewn y fro oedd yr un yn Nglangwna, ac yr oedd hwnnw'n bodoli'n gynharach na'r rhai ym Mhen Llyn a Gwastadnant. Mae cofnod o 1818 yn nodi ei fod yn werth £40 y flwyddyn honno, a chofnod diweddarach yn 1826 yn rhoi ei werth yn £100. Does dim sicrwydd pryd y cafodd ei adeiladu. Mae ei leoliad wedi ei nodi'n amlwg ar Fap Degwm Llanrug tua 1840 – ar y groesffordd yng nghanol pentref presennol Caeathro. Mae'n bosib mai'r 'Turnpike Lane' y cyfeirir ati yn 1861 yw'r ffordd o'r groesffordd am y Rhesdai Glangwna presennol.

Yr Ymddiriedolaeth Tyrpeg fyddai'n gosod y tollborth i denant, a hwnnw neu honno'n gwneud cynnig mewn ocsiwn am yr hawl i gasglu'r tollau. Ac oedd, roedd ambell i ferch wedi ei phenodi'n gyfrifol am gasglu tollau.

Mae'r hysbyseb yn dyddio o fis Ionawr 1834 yn y *North Wales Chronicle*, ac yn nodi gwerth pob tollborth y flwyddyn flaenorol. Dyma'r hysbyseb gynharaf y gallaf ei darganfod yn enwi Glangwna, Pen Llyn a Gwastadnant.



TOLLS TO BE LET.

NOTICE IS HEREBY GIVEN, that the TOLLS arising at the under mentioned Toll Gates, erected upon the Carnarvonshire Old Turnpike road,

WILL BE LET BY AUCTION,

To the highest Bidder, at the GRAND JURY ROOM, in the town of CARNARVON, on FRIDAY, the 14th day of FEBRUARY next, between the hours of Eleven in the Forenoon, and Three in the Afternoon, in the manner directed by the Act passed in the Third year of the reign of his Majesty King George the Fourth, "For regulating Turnpike Roads;" which Tolls produced the last year, above the expense of collecting the same, the different Sums annexed to the respective Gates following, viz :—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwydir Gate . . | £131 | Bodrual Gate . . . | £354 |
| Conway ditto . . . . | 215 | Penllyn ditto . . . | 108 |
| Penmaenmawr do. | 178 | Gwastadnant do. | 80 |
| Ty'n-y lôn ditto . | 232 | Pont Seiont ditto | 212 |
| Bangor ditto . . . . | 565 | Clynnog ditto . . . | 87 |
| Tafarn y grisia do. | 324 | Maesmawr ditto. | 59 |
| Glangwna ditto | 91 | Dolydd ditto . . . . | 70 |
| Pont rhyd ddu do. | 46 | Dolbenmaen ditto | 47 |

Hysbyseb Gosod Tollbyrth

Mae'r cofnodion **manwl** cynharaf am dollbyrth y fro yn dyddio o 1840, a diddorol gweld faint oedd eu gwerth o'r flwyddyn hon nes eu diddymu ar y dydd cyntaf o Dachwedd 1882.

Glangwna: 1840 – £83. 1861 – £175. 1874 – £200. 1881 – £170.

Pen Llyn:  1840 – £160. 1861 – £165. 1874 – £100. 1881 – £135.

Gwastadnant: 1840 – £50. 1861 – £66. 1874 – £80. 1881 – £84.

Mae'r gostyngiad yn incwm Pen Llyn i'w gyfrif i'r ffaith fod y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis wedi ei hagor yn 1869, a theithwyr ar y trên yn cael osgoi talu toll yn Nhyrpeg Bodrual ar gyrion Caernarfon, a Phen Llyn.

Diddorol yw astudio'r Cyfrifiadau o 1841 hyd 1881 i weld pwy oedd yn gofalu am dri tollborth yr ardal, a sut y cai'r tri eu disgrifio.

***Glangwna:*** 1841  Tollgate – William Williams a'i wraig, Mary oedd yno, ond mae'n disgrifio'i alwedigaeth fel chwarelwr.

1851  Gate Glangwna – Griffith Thomas, yn disgrifio'i alwedigaeth fel melinydd.

1861 Turnpike Gate – Sarah Owen, yn disgrifio'i hun fel tollgate keeper (yn y Cyfrifiad hwn hefyd, yn y nesaf at y Turnpike Gate roedd Turnpike Lane).

1871 Glangwna Turnpike – Chwarelwr o'r enw Owen Jones sy'n byw yma, ond John Lewis, sy'n byw yn y Bryngwna Inn sy'n disgrifio'i hun fel 'innkeeper and Toll Collector'.

1881 Glangwna Tollgate – Elizabeth Jones yw'r Toll collecter.

***Pen Llyn :***  1841 Pen llyn Gate – Catherine Owen oedd y Toll Collecter.

1851 Gate Pen llyn – Elinor Williams yw'r Gate Keeper.

1861 Turnpick – Mae Elinor Williams yn parhau yno  ac yn disgrifio'i hun fel Turnpick Keeper.

1871  Dim cofnod.

1881 Turnpike House – Richard Williams, ond yn disgrifio'i hun fel 'millwright'.

***Gwastadnant:***  1841 Turnpike – Griffith Williams yn disgrifio'i hun fel chwarelwr.

1851 Tollgate House – Hugh Williams yn llafurwr amaethyddol a Toll Collecter.

1861 Gwastadnant Tollgate – Owen Humphreys yn disgrifio'i hun fel 'High Road labourer'.

1871 Gwastadnant Tollgate – Owen Humphreys eto.

1881 Gwastadnant Turnpike Gate – Owen Humpreys eto.

Mae'n amlwg felly nad oedd cadw'r tollborth yn waith llawn amser i'r dynion, gan fod pob un â galwedigaeth. Efallai mai eu gwragedd oedd yn casglu'r tollau.

Yn dilyn diddymu'r Ymddiriedolaethau Tyrpeg, chwalwyd llawer o'r tai, ond arhosodd rhai ar eu traed. (Mae enghraifft arbennig o dollborth i'w weld yng Nghapel Curig hyd heddiw.) Erbyn 1891, Old Turnpike sydd ym Mhen Llyn ac Old Tollgate yng Ngwastadnant. Does dim sôn am yr un yng Nglangwna.

Yn dilyn diddymu'r tollbyrth a'r tâl am deithio ar hyd ffyrdd yr Ymddiriedolaeth, diddorol gweld yr hyn a gofnodwyd yn *Baner ac Amserau Cymru* am fis Tachwedd 1882: "Ar y dydd cyntaf o'r mis hwn yr oedd ymddiriedolaeth y priffyrdd yn terfynu trwy yr oll o Arfon, a llawer o ddynion yn prysur dynnu y tollbyrth i lawr. Trwy y sir y mae rhyddid i deithio yn awr heb dalu toll." Ac  felly y daeth oes y tyrpeg i ben.

# Traddodiadau traddodiadol

**Y Fari Lwyd**
Dyma draddodiad Cymreig enwog, dim gymaint ym mro'r Eco efallai ond mae pawb, debyg, yn gyfarwydd a'r pen ceffyl a dyn o dan gynfas gwyn a chriw o bobl yn 'canu gwaseila' wrth i'r creadur gael ei gludo o ddrws i ddrws yn ystod tymor y Nadolig.

Mae'n arferiad hynafol, sydd â'i wreiddiau mewn arferion eraill o'r cyfnod cyn-Gristnogol.

Penglog ceffyl wedi'i orchuddio â lliain a rhubanau oedd y Fari. Gosodwyd y benglog ar bolyn fel bod modd i'r person oedd o dan y lliain agor a chau'r genau fel petai'r creadur od yn fyw.

Byddai grŵp o ddynion yn mynd gyda'r Fari ac fe fydden nhw'n ymweld â phob tŷ yn yr ardal gan adrodd pennill yn gofyn am wahoddiad i'r tŷ. Roedd hi'n anlwcus gwrthod mynediad i'r Fari Lwyd. Ar ôl mynd i'r tŷ byddai'r grŵp yn diddanu'r teulu ac yn derbyn bwyd a diod yn gyfnewid am hynny.

Doedd pob cartref ddim yn croesawu'r cwmni swnllyd a gwelwyd dirywiad yn yr arferiad erbyn diwedd y 19eg ganrif.

**Canu Plygain**
Erstalwm roedd angen codi'n gynnar (neu aros yn effro drwy'r nos) i fynychu'r gwasanaeth plygain yn eglwys y plwyf. Gallai'r amser cychwyn amrywio rhwng tri a chwech o'r gloch y bore.

Roedd gwreiddiau gwasanaeth y plygain yn yr eglwys. Mae'r gair Plygain yn dod o'r gair Lladin *pullicantio* sy'n golygu 'caniad y ceiliog'. Cafodd y traddodiad ei fabwysiadu gan y capel yn ddiweddarach.

Yn yr hen amser, tua'r 17eg ganrif, dim ond y dynion oedd yn mynd i'r capel i ganu tra byddai'r merched yn aros gartref i goginio a gwneud cyflaith (taffi triog). Ond erbyn y 19eg ganrif byddai'r merched a'r plant yn cael mynd i'r Plygain hefyd.

Mae trefn y cyfarfod Plygain yn nwylo'r carolwyr gan nad oes arweinydd na chyflwynydd. Does neb yn deud dim ond bydd parti, unawdwr neu ddeuawd yn codi'n eu tro ac yn dod ymlaen i ganu. Clywir ugain i ddeg ar hugain o garolau Cymraeg yn ystod y



Lluniau Amgueddfa Cymru

gwasanaeth, pob un yn wahanol gan ei bod yn egwyddor i osgoi ailganu unrhyw garol.

Er bod y Plygain yn draddodiad sy'n perthyn i Gymru gyfan, mae'r traddodiad yn para'n gryfaf yn ardal Sir Drefaldwyn.

**Gwneud Cyflaith (taffi triog)**
Yng ngogledd Cymru roedd hi'n arfer draddodiadol mewn rhai llefydd i ddathlu'r Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd i gynnal 'Noson Gyflaith'. Byddai teuluoedd yn eu tro yn gwahodd ffrindiau i'w cartrefi gyda'r nos ac yn paratoi swper mawr, ymuno mewn chwaraeon, adrodd straeon ac yn tynnu cyflaith. Roedd carreg yr aelwyd yn cael ei llnau a'i hiro cyn i pob aelod o'r criw iro'i ddwylo efo menyn ac yna'n tynnu darn o'r cyflaith tra roedd o'n gynnes. Roedd hyn yn grefft arbennig a'r syniad oedd i dynnu'r cyflaith nes ei fod yn rhaffau melyngoch. Ceid llawer o hwyl yn gwylio aflwyddiant y rhai dibrofiad yn strachu i wneud hyn.

**Addunedau Blwyddyn Newydd**
Mae'n arferol i bobl wneud addunedau ar ddechrau'r flwyddyn, ond yn anffodus dydy pobl ddim yn llwyddo i'w cadw fel arfer… Maent yn symbol o obaith a dechrau ffres i'r flwyddyn newydd, ac yn ôl traddodiad mae beth ydach chi'n ei wneud ar ddydd Calan yn penderfynu'r hyn y byddwch chi'n ei wneud weddill y flwyddyn.

Fe ddylech chi felly sicrhau nad ydych chi'n benthyg arian i neb nac yn benthyg arian eich hun neu dyna fyddwch chi'n ei wneud weddill y flwyddyn. Gofalwch hefyd fod pob dyled wedi ei thalu cyn hanner nos ar nos Galan neu fe fyddwch mewn dyled am flwyddyn gyfan.

**Calennig**
Mae casglu calennig (neu rodd blwyddyn newydd) yn draddodiad lle byddai'r plant yn codi'n gynnar i gasglu calennig yn ystod y bore. Byddent yn ymweld â'r ffermydd a'r tai yn yr ardal, gan ganu pennill a gofyn am galennig. Ond byddai'n rhaid gwneud hyn i gyd cyn hanner dydd.


Rhan bwysig o hyn i gyd oedd addurno afal. Byddai'r plant yn cludo afalau wedi eu haddurno efo tair cangen a sbrigyn o goed bocs a chnau cyll a byddai hynny'n eu gwneud yn gludwyr lwc dda i'r tai. Roedd hi'n arferol i'r plant ganu pennill syml ac yn derbyn rhodd o fwyd neu arian am eu trafferth.

Wedi'r daith o amgylch yr ardal byddai'r afal naill ai'n cael ei arddangos yn y cartref neu'n cael ei roi'n anrheg i ffrindiau fel arwydd o lwc dda.




SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.



# Marathonau Rhyngwladol

Mae cystadlu mewn marathon wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r rhai a gynhelir yn rhai o brif ddinasoedd y byd yn denu miloedd – o'r goreuon yn y byd i'r rhai sydd eisiau cwblhau'r pellter yn unig. Mae'r dechnoleg o fedru amseru pob unigolyn a'u dilyn o amgylch y cwrs wedi ei gwneud yn llawer haws na'r hen drefn o sefyll ar y llinell derfyn gydag oriawr a chofnodi ar bapur enw ac amser y rhedwyr. Byddai hynny'n amhosib heddiw gyda'r fath niferoedd yn cymryd rhan. Y dechnoleg hon sydd wedi galluogi dinasoedd mwyaf y byd i drefnu marathonau sy'n denu miloedd – a hynny wrth gwrs o fudd ariannol i wahanol fusnesau'r dinasoedd rheini.

Dros y mis diwethaf mae tri o redwyr o'r fro wedi cystadlu mewn tair marathon ryngwladol. Mae llwyddiannau Hugh a Fiona Morgan eisoes wedi cael sylw; gan amlaf am iddynt redeg marathonau ultra – rhai sydd filltiroedd yn hwy na'r 26 milltir traddodiadol. Ond roedd eu hantur ddiweddaraf yn fwy eithafol na hynny hyd yn oed. Ddechrau mis Hydref roedd y ddau yn cystadlu ym Marathon Chicago ac yn gorffen ddechrau fis Tachwedd gyda Marathon Efrog Newydd. Rhwng y ddwy cwblhawyd y 'farathon' fwyaf eithafol i'r ddau ohonynt, sef teithio i bob talaith yn yr Unol Daleithiau (yn cynnwys Alaska a Hawaii) – mewn car ac awyren – a rhedeg o leiaf filltir ym mhob talaith. Mae meddwl am y daith yn ddigon i flino rhywun, heb son am redeg mewn marathon ar ddiwedd y daith honno!

Yn Efrog Newydd, ar y diwrnod cyn y ras roedd Gorymdaith y Cenhedloedd yn cael ei chynnal, gyda rhedwyr o'r holl wahanol wledydd oedd yn cystadlu yn cerdded trwy ganol y ddinas. Ac er mai o dan faner 'Prydain' y cawsant wahoddiad i orymdeithio, roedd y Ddraig Goch yn cyhwfan yn amlwg yng nghanol holl faneri jac yr undeb.

Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ar gamp eithriadol a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd i ddod.

Ni fu'n rhaid i Dyfed Thomas o Lanrug deithio mor bell – Amsterdam oedd yn denu, gyda Marathon ar gwrs gwastad o amgylch y ddinas. Roedd dros 22,000 o redwyr yn cystadlu, a'r rheini yn cynrychioli 140 o wahanol wledydd. Roedd ei safle a'i amser yn arbennig o dda. Gorffennodd yn safle 312 mewn 2 awr a 46 munud. Roedd hefyd yn drydydd dros 50 oed – ac yr oedd 900 o redwyr yn y categori hwnnw. Llongyfarchiadau ar ei gamp.



Chicago



Gorymdaith y Cenhedloedd



Efrog Newydd



Dyfed ym Marathon Amsterdam

## Penblwydd hapus

Ar y Sadwrn olaf yn Hydref roedd Marathon Eryri yn dathlu ei phenblwydd yn 40 oed. Doedd dim cweit cymaint yn cystadlu ac yn Chicago, Efrog Newydd ac Amsterdam, ond am y tro cyntaf yn ei hanes roedd dros 1,000 o ferched yn rhedeg. Roedd yn benblwydd ar Jane Lloyd, Pontrug hefyd, gan mai hwn oedd yr ugeinfed achlysur iddi fod yn gyfrifol am drefniadau'r farathon. Cyflwynwyd Jane â llun wedi ei fframio a thusw o flodau gan Joan Glass a redodd y farathon gyntaf.

I ddathlu'r ddau benblwydd cafwyd anrheg arbennig. Chwalwyd record y cwrs gan Andy Davies mewn 2 awr a 28 mund – bron i filltir ar y blaen i'r ail redwr. Mae Andy yn aelod o Glwb Rhedwyr Maldwyn, ond yn wyneb cyfarwydd i gefnogwyr marathonau a rasys mynydd yn Llanberis. Mae hefyd yn gyn enillydd Ras yr Wyddfa. Does ryfedd iddo adael y rhedwyr eraill ar y ddringfa o Feddgelert am Bont Cae'r Gors, ac ymestyn ymhellach ar y blaen o Bont Cyrnant i Fwlch y Groes. Louise Flynn oedd y ferch gyntaf mewn 2 awr 59 munud, a doedd hithau chwaith ddim yn bell iawn o dorri record y merched.

Ond yn wahanol i'r mwyafrif o farathonau, sy'n cael eu trefnu gan gwmniau masnachol, gwirfoddol yw'r holl waith ynglŷn â Marathon Eryri, a chlybiau a chymdeithasau lleol sy'n elwa, gan mai aelodau o'r rheini sy'n gofalu am y meysydd parcio, y cofrestru, y safleoedd diod o amgylch y cwrs ac yn y blaen – gan gynnwys y clirio wedyn. A'r elusen sy'n elwa yw Gofal Canser Tenovus.

Llongyfarchiadau mawr i Jane Lloyd a'i thim gweithgar ar gyrraedd carreg filltir mor nodedig yn hanes y ras.



Cyflwyno Jane Lloyd â llun wedi ei fframio a thusw o flodau gan Joan Glass



# Byd y Bêl





Rydym bron hanner ffordd drwy'r tymor pêl-droed bellach. Dyma sut mae'r tymor wedi mynd hyd yma i'r 3 clwb yn y fro.

Wedi llwyddiant tymor diwethaf yn ennill Cwpan y Gynghrair, mae'n siŵr bod Llanberis yn gobeithio i barhau gyda'r llwyddiant y tymor hwn. Cychwynnodd y tymor yng Nghwpan Cymru gyda Llanberis yn ennill ar giciau o'r smotyn draw yn Sychdyn yn y Rownd Ragbrofol Gyntaf. Gêm weddol leol oedd hi yn yr ail rownd ragbrofol yn erbyn Bontnewydd. Buddugoliaeth i Lanberis o 4 -1 ac yn curo Bontnewydd yn y Cwpan am yr ail flwyddyn yn olynol.

Yn y gynghrair cychwynodd y tymor yn dda i'r Darans gan gipio 9 pwynt yn eu 5 gêm agoriadol a record ddiguro, gyda buddugoliaethau yn erbyn Gaerwen a Glantraeth a gêm gyfartal draw yn Eithin Duon yn y darbi yn erbyn Llanrug. Ond daeth y record ddi-guro i ben yn erbyn y ffefrynnau i ennill y gynghrair, gyda Bethesda Athletic yn eu chwalu o 7-1 ar Ffordd Padarn a Bethesda yn dangos pam mai nhw sydd ar frig y gynghrair!

Yn ôl at y Cwpanau, colli yn rownd gyntaf Cwpan Canolradd Arfordir Gogledd Cymru o 2 - 0 i Benrhyndeudraeth. Ond yn Nhlws Cymru buddugoliaeth o 4 -1 yn Llanystumdwy yn y rownd gyntaf cyn colli i Bwllheli o'r 3ydd Haen o 4 - 0 yn yr ail rownd. Wedi ennill dwy gêm yng Nghwpan Cymru, y wobr oedd gêm oddi cartref i Landudno sydd yn chware yn yr ail haen yn y Cymru North. Er colli o 4 - 0 yn Maesdu roedd hi'n dipyn o gamp i Lanberis i gyrraedd y rownd gyntaf.

Ond ers colli yn y ddwy Gwpan i dimau o gynghreiriau uwch mae Llanberis wedi cael rhediad da ac wedi ennill 4 gêm gynghrair yn olynol (wrth ysgrifennu'r erthygl hon) gyda buddugoliaethau yn erbyn Talysarn Celts, Bontnewydd, Llannerchymedd a Mynydd Llandegai. Wedi 10 gêm yn y gynghrair roedd Llanberis yn eistedd yn 5ed yn y tabl gan obeithio parhau a'i rhediad diweddar.

Lawr y ffordd yn Eithin Duon. Tymor i fyny ac i lawr mae Llanrug wedi ei gael hyd yma.

Colli i Connah's Quay Town o'r drydedd haen yn rownd rhagbrofol gyntaf Cwpan Cymru o 4 - 3. Anlwcus oedd Llanrug wedi iddynt fod ar ei hôl hi o 4 - 0, a lawr i ddeg dyn ar yr egwyl. Bu ond y dim iddynt ddod yn ôl i gael gêm gyfartal yn y diwedd.

Yn anffodus bu'n siom i'r cochion yn y cwpannau eraill hefyd. Colli i Benmaenmawr o 3 - 2 yn rownd gyntaf Tlws Cymru. Tra yn rownd gyntaf Cwpan Canolradd Arfordir Gogledd Cymru colli draw ym Mhrestatyn i Bow o 6 - 0.

Yn y Gynghrair fyny ac i lawr mae hi wedi bod hyd yma i Lanrug. Buddugoliaeth yn erbyn Llanystumdwy yn ei gêm agoriadol a dwy gêm gyfartal 2 - 2 i ddilyn ar Eithin Duon yn y darbi yn erbyn Llanberis ac yn Sir Fôn yn erbyn Llanerchymedd. Wedi colli yn erbyn Mynydd Llandegai a Gwalchmai, daeth buddugoliaeth yn erbyn Penrhyndeudraeth a dwy gêm gyfartal yn erbyn Pentraeth a Glantraeth. Ond y cochion yn colli dwy yn olynol yn erbyn Talysarn a Bae Cemaes.

Wedi 10 gêm roedd Llanrug yn eistedd yn 12fed yn y tabl a 10 pwynt o'i 10 gêm. Mi fydd Llanrug yn gobeithio am rediad da yn yr wythnosau sydd i ddod i aros yng nghanol y tabl.

Braf wedi 2 flynedd gydag ond 2 dîm yw gweld 3ydd tîm i'r Fro yn y Pyramid Pêl-droed, gyda Deiniolen yn dychwelyd i'r cae am y tro cyntaf ers 12 mlynedd!

Mae hi wedi bod yn Gychwyn da i Dîm Llanbabs yn Adran Gyntaf Cynghrair Gorllewin Arfordir Gogledd Cymru. Cychwynnodd y tymor draw yn Amlwch a gêm gyfartal 1 - 1. Gôl hwyr gan y capten Arwyn Price i unioni'r sgôr a'r dathliadau'n werth eu gweld, gyda Deiniolen yn cipio pwynt yn ei gêm gyntaf yn ôl. Yn ei ail gêm colli yn Amaturiaid Blaenau. Tra gêm gyfartal 1 - 1 yn erbyn Caergybi yn ei gêm gartref gyntaf er bod hynny ar Gaeau Treborth, Bangor gan nad oedd cae Y Bwthyn, Deiniolen yn barod ar gyfer dechrau'r tymor.

Daeth eu buddugoliaeth gyntaf o'r tymor yn Rhosgadfan gan ennill 3 - 1 yn erbyn Mountain Rangers gan ddilyn efo buddugoliaeth arall yn erbyn y Fali yn Nhreborth.

Yn eu hunig gêm Gwpan yn Nghwpan Iau Arfordir Gogledd Cymru, colli yn y Rownd Gyntaf yn erbyn Llandudno Swifts 3 - 2. Wedi'r disgwyl daeth buddugoliaeth yn ei gêm gyntaf swyddogol gartref yn Y Bwthyn o 6 - 1 yn erbyn Cefni a gêm gyfartal yn erbyn Holyhead Town yn ei ail gêm. Braf oedd gweld dros 200 yn y dorf i'r ddwy gêm. Yn anffodus colli yn erbyn Bethesda Rovers, Gaerwen a Llangoed fu eu hanes yn eu tair gêm arall. Ond ar ôl 10 gêm roedd Tîm Llanbabs yn eistedd ganol y tabl a 12 pwynt.

Dwi'n siwr bod Deiniolen yn falch o'r cychwyn mae'r clwb wedi ei gael ar ol 12 mlynedd o saib. Gobeithio gall y 3 clwb wthio i fyny'r tabl yn eu Cynghreiriau yn yr wythnosau sydd i ddod.

**Elgan Rhys Jones**

**Tymor llwyddiannus eto i Osian**

Rhoddwyd sylw i lwyddiannau Osian Morris, Llanrug, ar ei feic eisoes, a gyda'r tymor rasio wedi dod i ben am eleni rhaid ei longyfarch unwaith yn rhagor am flwyddyn hynod lwyddiannus. Mae bellach yn gorfod cystadlu mewn adran hŷn, ac yntau'n dal yn bymtheg oed. Mae ganddo ddwy flynedd o gystadlu yn ei wynebu yn y dosbarth hwn. Bu'n cystadlu yma yng Ngymru, yn yr Alban, Lloegr ac ar y cyfandir.

Uchafbwyntiau 2024 oedd cael 3ydd ym Mhencampwriaeth Cymru yn Llangollen, 5ed ym Mhencampwriaeth Gwledydd Prydain yn Glen Coe yn yr Alban, ac 8fed yn ras Cwpan Ewrop yn yr Almaen.

O ganlyniad i'w lwyddiant yn y categori oedran hŷn, mae wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r *National Gravity Academy (NGA) British Cycling*. Dim ond chwech sydd wedi cael eu dewis o holl wledydd Prydain, ac mae'n edrych ymlaen i dderbyn hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn i ddod. Pwrpas yr Academi Genedlaethol yw datblygu unigolion sydd yn cael eu gweld i fod hefo'r potensial i fod yn athletwyr gorau'r byd yn eu dewis faes.

Yn ystod mis Hydref bu criw ffilmio 'Heno' yn ei wylio yn ymarfer ar gwrs Antur Stiniog, ac yn chwyrlïo i lawr y llethrau llechi ym Mlaenau Ffestiniog. Gerallt Pennat fu'n cyflwyno'r eitem ac yn holi Osian.

Mae'n bosib gweld yr eitem ar S4C Clic, Heno ar 23ain Hydref.

Dymunwn yn dda i Osian, a siawns na chawn adrodd am lwyddiannau pellach yn ystod tymor 2025.





ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >